

# Arolwg i ganfod y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog drwy Gymru

Rhagfyr 2015



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## **Arolwg i ganfod y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog drwy Gymru**

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

### **Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol

Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a

Chymorth i Ddysgwyr

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 01443 845500

e-bost: [additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk](mailto:additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk)

### **Dogfennau cysylltiedig**

*Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer*

*Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog Cylchlythyr Llywodraeth*

*Cynulliad Cymru Rhif: 006/2008 (2008)*

# Cynnwys

<b>1. Rhagarweiniad</b>	<b>2</b>
<b>2. Methodoleg</b>	<b>4</b>
<b>3. Canfod y dysgwyr mwy galluog a thalentog (MAT)</b>	<b>8</b>
<b>4. Y camau a weithredwyd i gynorthwyo a herio dysgwyr MAT</b>	<b>19</b>
<b>5. Tracio a monitro</b>	<b>32</b>
<b>6. Casgliadau</b>	<b>35</b>
<b>Atodiad A: Dulliau cymharol o ddelio â'r dysgwyr MAT ar draws y DU</b>	<b>39</b>
<b>Atodiad B: Rhoi argymhellion Estyn ar waith</b>	<b>41</b>
<b>Atodiad C: E-arolwg ysgolion</b>	<b>46</b>
<b>Atodiad D: Prif gyfarwyddyd cyfweld yr Arolwg ar gyfer ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion</b>	<b>52</b>
<b>Atodiad E: Llyfryddiaeth</b>	<b>53</b>

# 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Yng Ngorffennaf 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni 'Markit Training and Consultancy Ltd' i gynnal arolwg i ganfod y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog (MAT) yng Nghymru.
- 1.2 Amcanion yr arolwg oedd:
  - sefydlu beth oedd y strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion, sefydliadau addysg bellach (SAB) ac awdurdodau lleol (ALI) i ganfod, cynorthwyo, herio, monitro a thracio dysgwyr MAT er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial; a hefyd
  - canfod os oes unrhyw beth pellach y gellid ei wneud i sicrhau bod dysgwyr MAT yn cael eu canfod a'u meithrin.
- 1.3 Roedd cwmpas yr arolwg yn cynnwys dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir o fewn yr ystod oedran 3–16, gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, rhai yn y chweched dosbarth ynghyd â dysgwyr hyd at 19 mlwydd oed oedd yn mynychu SAB. Nid oedd safonau, canlyniadau, ansawdd nac effeithiolrwydd y ddarpariaeth MAT o fewn sgôp yr arolwg hwn.

## Cyd-destun

- 1.4 Yng Nghymru, mae'r term 'mwy galluog a thalentog' yn disgrifio dysgwyr sydd angen cyfleoedd mwy ymestynnol a chyfoethocach ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu galluoedd mewn un neu ragor o feysydd. Ymhob lleoliad addysgol bydd yna grŵp o ddysgwyr a fydd angen gweithgareddau dysgu ehangach eu lled a'u dyfnder na'r hyn a ddarperir fel arfer ar gyfer y garfan arferol o ddysgwyr. At ddibenion yr arolwg hwn, mae'r term dysgwyr MAT yn cynnwys y dysgwyr hynny sy'n meddu ar alluoedd neu dalentau academaidd, ymarferol, creadigol, ac artistig.
- 1.5 Yn 2008, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ar y cyd â Chymdeithas Genedlaethol Plant Galluog mewn Addysg (NACE) Cymru y cyfarwyddyd, *Cyflawni'r Her, Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog*<sup>1</sup>. Roedd y cyfarwyddyd hwn yn rhoi cyngor ar gwrdd ag anghenion addysgol y dysgwyr Mwy Galluog a Thalentog a chafodd y cyfarwyddyd ei ddosbarthu i bob ysgol ac ALI yng Nghymru. Cyflwynodd *Cyflawni'r Her* ddull cyson o fynd ati i gwrdd ag anghenion y dysgwyr MAT gan ddarparu fframwaith ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth ysgol gyfan ar gyfer dysgwyr MAT. Gallai ysgolion oedd yn meddu ar ddarpariaeth sefydledig ddewis i gael eu hasesu ar gyfer 'marc ansawdd', Gwobr Her NACE Cymru yn seiliedig ar Safonau Ansawdd.

---

<sup>1</sup> Roedd y cyfarwyddyd 'Cyflawni'r Her' wedi ei anelu ar gyfer ysgolion a gynhelir, nid ar gyfer SAB.

- 1.6 Yn 2010 darparodd cyfarwyddyd pellach<sup>2</sup> 'Cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr' gyngor penodol ar gwrdd ag anghenion dysgwyr MAT gan datgan:  
*'Y ddarpariaeth orau ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog ydy ymestyn yr hyn sydd ar gael i bob dysgwr'.*
- 1.7 Ers 2010, un o ofynion Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ydy i ysgolion werthuso ansawdd eu darpariaeth ar gyfer dysgwyr MAT. Y disgwyl ydy y dylai ysgolion sicrhau bod:
- ystod ac ansawdd y dulliau addysgu a fabwysiadir yn llwyddo i ddarparu gwaith ymdrechgar i gwrdd ag anghenion pob dysgwr;
  - y gwaith yn briodol heriol ar gyfer dysgwyr MAT; a bod
  - y deunyddiau a'r dulliau cyflenwi yn cael eu gwahaniaethau'n briodol.
- 1.8 Ym Mehefin 2011 adroddodd Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar y cymorth a ddarperir ar gyfer dysgwyr MAT mewn ysgolion cynradd<sup>3</sup> ac ysgolion uwchradd<sup>4</sup>. Darparwyd argymhellion ar gyfer ysgolion ac ALI. Ar sail canfyddiadau ein harolwg, yn Atodiad 2, ceir asesiad byr i ba raddau y mae ysgolion ac AauLI wedi rhoi argymghellion Estyn ar waith.

---

<sup>2</sup> *Cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr: Cyfarwyddyd i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2010)*

<sup>3</sup> *Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd; Estyn Mehefin 2011*

<sup>4</sup> *Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd; Estyn Mehefin 2012*

## 2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn amlinellu dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr arolwg. Roedd yr ymchwil yn cynnwys dwy elfen – Cam Rhychwantu a'r Prif Arolwg

### Y Cam Rhychwantu

- 2.1 Pwrpas allweddol y Cam Rhychwantu oedd datblygu a phrofi methodolegau'r gwaith maes drwy gynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig un-i-un gyda rhanddeiliaid strategol a sampl fechan o uwch arweinwyr mewn ysgolion, SAB ac ALI. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn ansoddol eu natur ac yn cynnwys arolwg o'r llenyddiaeth oedd yn sail i ddatblygu cwestiynau ar gyfer y cyfweiliad.
- 2.2 Ymhlith y sampl o sefydliadau rhanddeiliaid strategol roedd:
  - pob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol
  - pedwar awdurdod lleol a
  - sefydliadau cenedlaethol yn cynnwys Estyn, Llywodraethwyr Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, a Chymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE) Cymru.
- 2.3 Cytunwyd hefyd ar sampl ddaearyddol a ieithyddol gytbwys o leoedd addysgol<sup>5</sup> oedd yn cynnwys:
  - wyth ysgol gynradd - 2 i bob consortiwm rhanbarthol;
  - pedair ysgol uwchradd - 1 i bob consortiwm rhanbarthol;
  - un ysgol arbennig;
  - un uned gyfeirio disgyblion; a hefyd
  - tri sefydliad addysg bellach<sup>6</sup> yn cynnwys yr unig goleg chweched dosbarth a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.
- 2.4 Gwahoddwyd uwch gynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid a lleoliadau addysgol i gymryd rhan yn yr arolwg hwn. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 16 Medi a 27 Hydref, 2014. Cwblhawyd cyfanswm o 32 o gyfweiliadau a sicrhawyd cyfoeth o wybodaeth fanwl.
- 2.5 Fe wnaeth tîm yr arolwg gwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr NACE Cymru ac ymgynghori ag ymarferwyr ysgolion ac AB mewn cyfarfodydd perthnasol rhwydwaith Cymru Gyfan.

### Y Prif Arolwg

- 2.6 Addaswyd y dulliaute Gwaith Maes mewn ymateb i ganfyddiadau'r Cam Rhychwantu ac yr oedd tair elfen wahanol:
  - e-arolwg gyda sampl o ysgolion meithrin, babanod, cynradd ac uwchradd;

---

<sup>5</sup> Roedd y sampl ysgolion yn cynnwys pum lleoliad oedd wedi derbyn Gwobr Her NACE Cymru.

<sup>6</sup> Mae 15 SAB yng Nghymru, gan gynnwys sefydliadau dynodedig, ond ar gyfer yr arolwg y 13 Coleg AB gafodd eu holi.

- cyfweiliadau lled-strwythuredig, un-i-un dros y ffôn gydag uwch arweinwyr ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, uwch reolwyr Sefydliadau AB, swyddogion a rhanddeiliaid All;
- grwpiau ffocws gyda dysgwyr AB ac AU a llywodraethwyr ysgolion.

## Ysgolion

- 2.7 Y fethodoleg fwyaf priodol i gasglu gwybodaeth gan arweinyddion ysgol oedd e-arolwg. Addaswyd cwestiynau cyfweld, a brofwyd yn llwyddiannus yn ystod y Cam Rhychwantu, a'u hymestyn i greu arolwg dwyieithog oedd yn berthnasol i ysgolion meithrin, babanod, cynradd ac uwchradd.
- 2.8 Rhannwyd poblogaeth yr ysgolion ar gyfer samplo yn dair is-set, sef meithrin/babanod, cynradd ac uwchradd. Nodwyd y sampl ar gyfer pob is-set gan ddefnyddio'r meini prawf perthnasol canlynol:
- iaith yr hyfforddiant; Saesneg, Cymraeg, dwyieithog;
  - lleoliad daearyddol; fesul ardal consortiwm rhanbarthol ac, yn ail, fesul awdurdod lleol; a hefyd
  - bandio ysgol ar gyfer ysgolion uwchradd.
- 2.9 Gan ddefnyddio'r dull hwn o fynd ati, datblygwyd setiau samplo cytbwys yn ieithyddol a daearyddol o ysgolion ar gyfer yr e-arolwg. Cysylltwyd â chyfanswm o 124 o ysgolion, sampl o tua 8% o'r holl ysgolion meithrin, babanod, cynradd ac uwchradd (n = 1,591). Roedd y rhain yn cynnwys:
- 8 ysgol feithrin ac ysgolion babanod gyda meithrinfa; tua 10% o ysgolion o'r fath (meithrin n = 17 ac ysgolion babanod n = 59)
  - 68 ysgol gynradd; tua 5% o'r holl ysgolion cynradd (n = 1,357)
  - 48 ysgol uwchradd; tua 23% o'r holl ysgolion uwchradd; (n = 213)<sup>7</sup>
- 2.10 Gwahoddwyd ysgolion y sampl i gymryd rhan yn y Prif Arolwg. Ysgolion, yn hytrach nag aelodau unigol o'r staff, oedd yr uned samplo sylfaenol ar gyfer yr e-arolwg a cheisiwyd sicrhau ymateb unigol. Fel arfer, y prifathro neu Gydlynnydd MAT gwblhaodd yr e-arolwg ar ran eu hysgol.
- 2.11 Gallai ysgolion y sampl gael mynediad i'r e-arolwg am gyfnod o 6 wythnos, o 19 Ionawr tan 27 Chwefror, 2015. Doedd yr e-arolwg ddim ar gael i ysgolion nad oedd yn rhan o'r sampl. Cwblhaodd cyfanswm o 91 ysgol yr arolwg; 5 ysgol feithrin a babanod; 48 ysgol gynradd a 38 ysgol uwchradd; gan gynrychioli cyfradd ymateb o 73%. Mae hyn yn cynrychioli tua 6% o gyfanswm o holl boblogaeth ysgolion Cymru. Cafwyd gwared ar bump o e-arolygon ac ymatebion oedd wedi'u cwblhau yn rhannol ac ni ystyriwyd y rhain yn nadansoddiad y data.
- 2.12 Defnyddiwyd dull gwahanol o fynd ati i gynnal arolwg o ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Anfonwyd cyfarwyddyd cyfweld drwy e-bost i bob lleoliad cyn y cyfweiliad dros y ffôn neu mewn rhai achosion wyneb-yn-wyneb.

<sup>7</sup> Ffynhonnell: Adroddiad Ystadegau Cymru: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

E-bostiwyd nodiadau llawn y cyfweiliad i'r cyfweilai oedd wedyn yn cael cyfle i wirio ansawdd y nodiadau maes.

- 2.13 Canolbwyntiodd y Prif Arolwg ar leoliadau ysgolion arbennig gyda chyfran uwch o ddysgwyr ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (EBD) mewn cyferbyniad â lleoliadau gyda mwy o ddysgwyr ag anawsterau dysgu mwy dwys a lluosog gan fod lleoliadau EBD yn fwy tebygol o gynnwys dysgwyr sydd angen darpariaeth wedi'i thargedu at ddysgwyr MAT. Holwyd pedair ysgol arbennig, 1 o bob ardal consortiwm rhanbarthol, a hynny'n cynrychioli tua 10% o'r holl ysgolion arbennig (n = 42).
- 2.14 Dewiswyd pedair Uned Cyfeirio Disgyblion yn cynrychioli gwahanol ardaloedd consortia rhanbarthol ac ystod oed. Cymerodd tair Uned ran mewn cyfweiliadau un-i-un dros y ffôn yn cynrychioli tua 10% o'r Unedau Cyfeirio Disgyblion (n = 38).

### **Sefydliadau Addysg Bellach**

- 2.15 Gwahoddwyd y deg coleg AB oedd yn weddill, sef y rhai na fu'n rhan o'r cam rhychwantu, i gymryd rhan yn y Prif Arolwg, a chynhaliwyd cyfweiliadau ar y ffôn neu wyneb-yn-wyneb gydag uwch gynrychiolwyr o bob un o'r deg coleg.

### **Awdurdodau Lleol**

- 2.16 Gwahoddwyd yr 18 AauLI oedd yn weddill, sef y rhai na fu'n rhan o'r cam rhychwantu, i gymryd rhan yn y Prif Arolwg. Cysylltwyd dros y ffôn i ganfod y swyddog mwyaf addas i gymryd rhan yn yr arolwg. Cynhaliwyd cyfweiliadau un-i-un gydag uwch gynrychiolwyr o 17 awdurdod lleol.

### **Rhanddeiliaid**

- 2.17 Ffocws y Prif Arolwg oedd ymgynghori â'r sefydliadau rhanddeiliaid hynny oedd yn cymryd rhan fwy uniongyrchol yn y broses o ganfod talent a darparu her i'r dysgwyr Mwy Galluog a Thalentog. Datblygwyd setiau sampl yn cynnwys sefydliadau rhanddeiliaid yn ymwneud â meysydd y celfyddydau, chwaraeon a'r cwricwlwm. Gwahoddwyd pob sefydliad i gymryd rhan yn y Prif Arolwg. Cwblhawyd cyfanswm o 22 o gyfweiliadau a chynhyrchwyd adborth manwl. Fel rhan o'i gyflwyniad i'r arolwg cynhaliodd Potential Plus UK<sup>8</sup> arolwg o aelodau o rieni o Gymru. Ymatebodd cyfanswm o 26 o rieni.

### **Grwpiau ffocws**

- 2.18 Penderfynwyd bod dysgwyr MAT Addysg Bellach a dysgwyr blwyddyn gyntaf AU oedd yn athletwyr elit mewn sefyllfa dda i roi adborth ar eu profiadau MAT mewn lleoliadau cynradd, uwchradd ac ôl-16 led-led Cymru. Cynhaliwyd pum grŵp ffocws dysgwyr; pedwar gyda dysgwyr AB ynghyd ag un grŵp ffocws

---

<sup>8</sup> Sefydliad aelodaeth cenedlaethol ydy Potential Plus UK sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n 'uchel eu potensial dysgu' a'u rhieni a'u gofalwyr



gyda dysgwyr blwyddyn gyntaf AU. Derbyniwyd adborth gan gyfanswm o 52 o ddysgwyr (44 dysgwr AB ac 8 dysgwr AU) oedd yn flaenorol wedi mynychu 36 ysgol uwchradd ar draws Cymru.

- 2.19 Cafwyd adborth hefyd gan lywodraethwyr wyth ysgol, y rhan fwyaf yn rhieni o lywodraethwyr, a gymerodd ran mewn grŵp ffocws yng Nghynhadledd Llywodraethwyr Consortiwm Llywodraethwyr Canol De Cymru. Roedd y llywodraethwyr hyn yn cynrychioli wyth ysgol gynradd ac uwchradd gwahanol.

### Terminoleg

- 2.20 Seilir canfyddiadau'r ysgolion yn yr adroddiad hwn ar yr ymatebion gan yr ysgolion hynny a gwblhaodd e-arolwg y Prif Arolwg. Mae'r geiriau a'r ymadroddion yn y golofn chwith isod yn rhai sy'n disgrifio canfyddiadau meintiol. Mae'r ymadroddion yn y golofn dde yn rhai sy'n esbonio yn fwy manwl gywir.

bron pob un	y chydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf	90% neu fwy
llawer	70% neu fwy
y mwyafrif	60%
hanner	50%
tua hanner	yn agos at 50%
lleiafrif	yn is na 40%
y chydig	yn is na 20%
y chydig iawn	llai na 10%

- 2.21 Er mai ymchwil ansoddol oedd y dull mwyaf priodol ar gyfer agweddau o'r arolwg hwn, mae'n bwysig cofio mai samplau bychain dewisol a ddefnyddir i sicrhau bod ystod o farnau'n cael eu cynrychioli. Lluniwyd ymchwil ansoddol i egluro pethau ac felly dydy'r data ansoddol yn yr adroddiad hwn ddim yn ystadegol arwyddocaol; rhaid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.

### 3. Canfod y dysgwyr mwy galluog a thalentog (MAT)

Mae'r adran hon yn ceisio:

- nodi sut mae ysgolion, Sefydliadau AB (SAB) ac Awdurdodau Lleol (ALI) yn dehongli 'mwy galluog a thalentog';
- ystyried sut mae ysgolion, AauLI a Chonsortia Rhanbarthol yn defnyddio cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar ddysgwyr MAT fel sail ar gyfer eu cynllunio strategol; a hefyd
- sefydlu camau gweithredu ysgolion, SAB, ALI, Consortia Rhanbarthol a sefydliadau eraill i ganfod y dysgwyr MAT.

#### Ysgolion

- 3.1 Mae bron pob ysgol feithrin, babanod, cynradd ac uwchradd, ysgolion arbennig a phob Uned Gyfeirio Disgyblion a gymerodd ran yn yr arolwg yn ymwybodol o 'Cyflawni'r Her' ac wedi defnyddio'r safonau ansawdd yn sail ar gyfer eu darpariaeth MAT.
- 3.2 Mae *Cyflawni'r Her* yn darparu diffinad o'r mwy galluog a thalentog ac yn annog ysgolion i benderfynu ar ddiffiniad gwaith o fewn eu lleoliad eu hunain. Mae gan lawer o ysgolion eu dehongliad eu hunain o'r hyn ydy mwy galluog a thalentog gyda'r mwyafrif yn meddu ar ddiffiniad holl-gynhwysfawr sy'n cyfeirio at allu academaidd ac at dalent yn ei ystyr ehangach.
- 3.3 Diffiniodd ysgolion y dysgwyr mwy galluog fel y rhai oedd yn cyflawni'n uwch na'r hyn a ddisgwylid ar gyfer eu hoed a/neu'r cam dysgu mewn un neu ragor o feysydd y cwricwlwm. Cyfeiriodd lleiafrif o ysgolion at ganran benodol o ddysgwyr a nodwyd yn fwy galluog, 20% fel arfer. Fodd bynnag, roedd yr ystod o ganrannau a nodwyd fodd bynnag, yn amrywio'n sylweddol, gyda'r enghraifft isaf yn 10% a'r uchaf yn 40+%.
- 3.4 Wrth ddiffinio dysgwyr mwy galluog, ceisiodd lleiafrif o ysgolion fesur cyflawniad disgyblion drwy ddefnyddio meincnodau cenedlaethol ar gyfer perfformiad, yn nodi'r dysgwyr MAT fel rhai sy'n gweithio ar lefel o leiaf un canlyniad Cyfnod Sylfaen neu un lefel Cwricwlwm Cenedlaethol yn uwch na'r hyn a ddisgwylir ar ddiwedd y cyfnod/y cyfnod allweddol, yr hyn a elwir yn 'y lefel a ddisgwylir plws un'<sup>9</sup>. Mesurodd ychydig o ysgolion y gallu yn ôl sgoriau asesu'r profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd a'r Profion Galluoedd Gwybyddol. Yn nodweddiadol, disgrifiwyd disgyblion oedd yn cyrraedd sgôr asesiadau safonol o tua 115+ fel y rhai mwy galluog.
- 3.5 Dim ond lleiafrif o ysgolion wahaniaethodd rhwng y dysgwyr 'mwy galluog' a'r dysgwyr 'eithriadol o alluog'. Diffiniwyd dysgwyr 'eithriadol o alluog' yn rhai sy'n gweithio ar lefel o leiaf ddau ganlyniad Cyfnod Sylfaen neu ddwy lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol yn uwch na'r hyn a ddisgwylir ar ddiwedd y cyfnod/cyfnod allweddol mewn un neu fwy o feysydd y cwricwlwm, h.y. 'y lefel a

---

<sup>9</sup> Er enghraifft, dysgwyr Blwyddyn 2 sy'n cyflawni Canlyniad 6 yn y Cyfnod Sylfaen; dysgwyr ym Mlwyddyn 6 sy'n cyflawni ar Lefel 5 neu uwch yn y Cwricwlwm Cenedlaethol; dysgwyr ym Mlwyddyn 9 sy'n cyflawni ar Lefel 6 neu uwch yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

ddisgwylir plws dau'. Nododd ychydig o ysgolion hefyd y canran o ddysgwyr yr oedden nhw wedi eu canfod yn eithriadol o alluog, 2% o ddisgyblion fel arfer.

- 3.6 Roedd dehongliad ysgolion o dalent yn gyson iawn, sef dysgwyr sy'n arddangos sgiliau a doniau cynhenid mewn cyd-destun creadigol, diwylliannol neu ym maes chwaraeon, yn yr ysgol neu tu allan i'r ysgol. Roedden nhw hefyd yn cydnabod rhinweddau personol a chymdeithasol y dysgwyr MAT megis eu sgiliau arweinyddiaeth.
- 3.7 Roedd bron pob ysgol yn ddweud bod ganddyn nhw bolisi ar MAT a/neu bolisi ar Addysgu a Dysgu sy'n nodi strategaeth ysgol gyfan. Dwedodd llawer o ysgolion fod ganddyn nhw Gynllun Gweithredu MAT sy'n nodi blaenoriaethau tymor byr ar gyfer datblygu darpariaeth MAT a gydag ychydig iawn o eithriadau, mynegodd ysgolion fod ganddyn nhw aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am gydlynw'r ddarpariaeth MAT o fewn eu hysgol. Mae MAT hefyd yn nodwedd annibynnol neu'n elfen o flaenoriaeth ehangach o Gynlluniau Datblygu Ysgol (CDY) y rhan fwyaf o ysgolion. O'r enghreifftiau o flaenoriaethau CDY a roddwyd, cyfeiriodd tua hanner ohonyn nhw yn benodol at wella perfformiad academaidd y dysgwyr MAT. Ychydig iawn o ysgolion a nododd eu bod yn cynllunio'n strategol ar gyfer datblygu talent.
- 3.8 Mewn ysgolion cynradd, mae blaenoriaeth CDY yn cyfeirio fel arfer at gynyddu canran o ddisgyblion MAT sy'n cyflawni canlyniad 5+ ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen neu'n cyflawni'n uwch na'r lefel disgwylidig am eu hoed h.y. Lefel 5+, mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2, yn bennaf yn y pynciau craidd sef, Saesneg, Cymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg. Rhestrodd ychydig o ysgolion cynradd hefyd dargedau ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir am eu hoed o ran canlyniadau Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac o ran eu perfformiad mewn profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd.
- 3.9 Nododd ysgolion uwchradd flaenoriaethau a thargedau cyflawniad tebyg. Er enghraifft, i gynyddu canran y disgyblion mwy galluog a thalentog sy'n cyflawni'n uwch na'r hyn a ddisgwylir am eu hoed h.y. Lefel 6+, mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 3 mewn pynciau craidd; i gynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy cynhwysol o lefel 2+ ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, ac i gynyddu'r nifer o ddysgwyr sy'n cyflawni graddau A neu A\* yn TGAU a Lefel A.

*'Nodir ein blaenoriaethau mewn cynllun dwy flynedd gweithredu MAT a drafodir fel eitem sefydlog ar agenda mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn darparu dull strwythuredig o fonitro cynnydd a helpu i ganfod neu rannu gwybodaeth am ddisgyblion unigol, yn enwedig y talentau hynny y maen nhw'n eu datblygu y tu allan i'r ysgol.*

Pennaeth Ysgol Gynradd

- 3.10 Nododd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod yn meddu ar ddull ysgol gyfan o fynd ati i ganfod y dysgwyr MAT. Pan ofynnwyd iddyn nhw ddisgrifio'r strategaethau canfod a ddefnyddiwyd, nododd ysgolion y canfyddiadau canlynol:

<b>Tabl 1</b>	
<b>Nodi'r Strategaeth a Ddefnyddiwyd (n = 91)</b>	<b>Ymateb (%)</b>
Asesiadau ffurfiannol gan athrawon	95
Enwebiad athrawon	94
Data asesiad crynodol Diwedd Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol	87
Canlyniadau prawf Cenedlaethol Darllen a Rhifedd	86
Safoni gwaith disgyblion	71
Enwebiad gan bobl broffesiynol eraill e.e. athrawon cerdd peripatetig	63
Meini prawf penodol i bwnc	63
Sgoriau prawf masnachol	53
Enwebiad rhieni/gofalwyr	52
Hunan-enwebiad	23
Enwebiad cymheiriaid	21
Ffynhonnell: E-arolwg ysgolion Y Prif Arolwg	

- 3.11 Dywedodd ysgolion eu bod y defnyddio ystod eang o strategaethau canfod cyflenwol er mwyn sicrhau eu bod yn cydnabod galluoedd a thalentau disgyblion. Mae meincnodau allanol o berfformiad disgyblion yn cyfrannu tystiolaeth i ategu asesiad ffurfiannol yr athrawon o alluoedd disgyblion. Nododd tua hanner yr ysgolion hefyd eu bod yn defnyddio sgoriau prawf masnachol fel strategaeth i ganfod potensial dysgu a gallu. Defnyddir y cyfryw brofion i asesu galluoedd darllen, darllen a deall a sillafu disgyblion yn ogystal â'u sgiliau a'u cysyniadau mathemategol, eu rhesymu llafar a dieiriau ac agweddau eraill o'u gallu gwybyddol.
- 3.12 Dengys tystiolaeth bod athrawon yn gwneud dyfarniadau ansoddol yn aml drwy ddefnyddio meini prawf MAT pwnc-benodol, i ganfod dysgwyr talentog. Mae ysgolion hefyd yn defnyddio safoni gwaith y dysgwyr, arsylwi mewn gwersi, archwilio eu llyfrau a theithiau dysgu i sicrhau bod dull cyson o ganfod yn cael ei ddefnyddio.
- 3.13 Llai cyffredin ydy'r achosion lle mae'r dysgwyr eu hunain yn rhan o'r broses a dydy hyn ddim ond yn digwydd mewn lleiafrif o ysgolion. Caiff mewnbyn rhieni ei ystyried mewn tua hanner yr ysgolion, yn arbennig i ganfod talent drwy

holiaduron, arolygon a chyfeirio anffurfiol, gydag ysgolion meithrin, babanod a chynradd yn fwy tebygol o wahodd enwebiadau gan rieni.

- 3.14 Mynegodd y rhan fwyaf o ysgolion fod ganddyn nhw gofrestr MAT a'u bod yn defnyddio systemau tracio ysgol gyfan i gofnodi data asesiad a gwybodaeth arall i ganfod y dysgwyr MAT. Ategir systemau fel hyn gan nodiadau anffurfiol ac arsylwadau parhaus sy'n sicrhau bod galluedd a thalentau cudd dysgwyr yn cael eu canfod. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r ystod o wybodaeth a gasglwyd ar y disgyblion MAT i ganfod cryfderau penodol disgyblion, eu diddordebau, a'u hanghenion dysgu a chymorth. Mae hyn yn cynnwys nodi'r disgyblion MAT hynny sydd ddim yn cyflawni eu llawn potensial.

*Yn Ysgol Iau Penygraig, mae'r ethos ysgol gyfan yn cydnabod dawn academiaidd a thalentau pob dysgwr ac mae'r polisi MAT yn hyrwyddo 'Her i Bawb' waeth beth fo'u gallu. Mae'r ysgol yn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl am ddiddordeb a sgiliau pob plentyn drwy holiaduron blynyddol ar gyfer rhieni a phlant ac yn cyfuno hyn â gwybodaeth asesiad ffurfiannol a chrynodo i greu proffil o bob plentyn. Caiff cofrestr MAT ei llunio ynghyd â chynlluniau gweithredu unigol ar gyfer unrhyw ddysgwr eithriadol sydd efallai'n gweithio ddwy lefel yn uwch na'r cyfartaledd am eu hoed.*

*Er mwyn sicrhau mwy o her yn y cwricwlwm, cyflwynwyd model addysgu a dysgu penodol i'r dysgwyr MAT. Hefyd, caiff 'Dyddiau Disgleirio/Shine Days' eu cynnal bob tymor i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi ar gyfer y dysgwyr; naill ai i ddatblygu a chymhwyso sgiliau a thalentau neu i weithredu fel sesiynau blasu lle gall plant drïo gweithgaredd newydd i weld a hoffen nhw ei ddatblygu ymhellach. Ar 'Shine Days' gosodir plant mewn grwpiau yn ôl eu gallu ar draws Cyfnod Allweddol 2 fel gall dysgwyr Blwyddyn 6 weithio ochr yn ochr â phlant MAT ym Mlwyddyn 3. Mae'r grwpiau oed cymysg hyn yn rhoi dimensiwn gwahanol, caiff parch ei feithrin ac mae dysgu'r plant iau yn cyflymu drwy efelychu eu cymheiriaid.*

*Mae'r newid mewn addysgeg wedi cael gwir effaith, gyda'r canlyniad bod cynnydd yn yr ymglymiad a'r brwdfrydedd dros ddysgu annibynnol. Mae'r ysgol hefyd yn nodi bod canlyniadau lefel 5 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 wedi gwella.*

- 3.15 Rhennir gwybodaeth am y dysgwyr MAT yn bennaf o fewn yr ysgol, gyda chydweithwyr a'r dysgwyr unigol. Mae mwyafrif o ysgolion hefyd yn rhannu gwybodaeth MAT gyda rhieni. Mae'n llai cyffredin i rannu gwybodaeth am faterion MAT gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

<b>Tabl 2</b>	
<b>Rhannu gwybodaeth am MAT (n = 91)</b>	<b>Ymateb (%)</b>
Ymarferwyr eraill mewn ysgol	92
Y dysgwyr mwy galluog a thalentog yn unigol	74
Rhieni/gofalwyr	63
Yr awdurdod lleol	16
Y consortiwm rhanbarthol	8
Ffynhonnell: E-arolwg ysgolion Y Prif Arolwg	

- 3.16 Roedd y dysgwyr yn ymwybodol o'r term 'mwy galluog a thalentog' a dywedodd y mwyafrif o ddysgwyr eu bod wedi'u canfod yn ddysgwyr MAT yn ystod eu hamser yn yr ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i gyfleu'r wybodaeth honno i unigolion yn amrywio'n sylweddol; dywedodd athrawon pwnc wrth rai, eu tiwtor dosbarth neu'r neu staff bugeiliol ddwedodd wrth eraill ac mewn ysgolion eraill dywedwyd wrth yr holl ddysgwyr MAT fel grŵp ar wahân. I'r rhai oedd yn dalentog ym maes chwaraeon, y prif ddull o'u canfod oedd cael eu dewis i chwarae dros dimoedd yr ysgol neu dimoedd y sir. Yn yr un modd, dewiswyd cerddorion talentog i gymryd rhan mewn corau a cherddorfeydd ysgol ac awdurdodau lleol. Dywedodd llawer o ddysgwyr nad oedd cael eu canfod yn ddysgwyr MAT o anghenrheid yn brofiad positif oherwydd nad oedden nhw am gael eu hystyried yn wahanol gan eu cymheiriaid.
- 3.17 Nododd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod yn trosglwyddo data cyflawniad disgyblion a rhannu gwybodaeth arall am ddysgwyr MAT o fewn yr ysgol ac i leoliadau eraill ar gyfnodau pontio allweddol. Fodd bynnag, mae'r amrywiad yn y dehongliad o'r hyn ydy MAT yn arwain at gamganfod pan fydd gwybodaerth yn cael ei rhannu am ddysgwyr MAT adeg pontio. Dyfynnodd, Estyn, rhai ALI, consortia rhanbarthol a NACE bod anghysonderau yn asesiad athrawon yn arwain at ddiffyg hyder yn y data pontio MAT.

*Mae gan Ysgol Cil-y-Coed, ysgol gyfun gymysg i rai 11 i 18 oed raglen bontio lwyddiannus ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog. Mae athrawon cynradd yn canfod y dysgwyr ac maen nhw mewn cyswllt cyson â Chydlynnydd MAT Ysgol Cil-y-Coed drwy e-bost ac mewn cyfarfodydd bob tymor. Yna, bydd dysgwyr MAT Blwyddyn 5 a 6 o wyth ysgol gynradd bartner yn ymweld ag Ysgol Cil-y-Coed bob mis i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi sy'n canolbwyntio ar wahanol feysydd y cwricwlwm bob tro. Mae dysgwyr sydd yn y Chweched Dosbarth yn fodolau rôl positif, yn llunio a chyflenwi rhannau o'r sesiynau pontio dan gyfarwyddyd y Cydlynnydd MAT. Mae hyn yn gyfle i'r rhai sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes addysgu i ennill profiad a thystiolaeth a fydd yn atgyfnerthu eu cais am le mewn prifysgol.*

*Mae'r dysgwyr MAT o ysgolion cynradd partner yn elwa o gydweithio gyda chymheiriaid tebyg eu gallu ac maen nhw'n cael eu cyflwyno i bynciau newydd a addysgir yn yr ysgol uwchradd e.e. Sbaeneg. Mae'r rhaglen bontio hefyd yn fodd i ganfod y dysgwyr mwy galluog a thalentog cyn cychwyn yn yr ysgol uwchradd a hynny'n sicrhau y gellid cynllunio sialens briodol.*

- 3.18 Darparodd ysgolion arbennig adborth amrywiol ar berthnasedd *Cyflawni'r Her*; roedd dwy ysgol yn nodi bod y cyfarwyddyd yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer cynllunio i gwrdd ag anghenion dysgwyr unigol ac wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu dulliau ysgol gyfan o fynd ati. I'r gwrthwyneb, mynegodd tair ysgol, o bosibl oherwydd natur eu dysgwyr, nad ydy'r cyfarwyddyd yn uniongyrchol berthnasol ar gyfer ysgolion arbennig.
- 3.19 Mae dehongliad ysgolion arbennig o'r mwy galluog a thalentog yn un cynhwysol iawn. Er bod gweithgareddau dysgu yn cael eu cynllunio i gwrdd ag ystod llawn anghenion a diddordebau'r dysgwyr, caiff dysgwyr sy'n arddangos gallu uwch na'r lefel a ddisgwyllir ganddyn nhw mewn maes cwricwlwm/neu

agweddau eraill o ddysgu eu canfod a'u meithrin. Mae ysgolion arbennig hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu'r ystod llawn o dalentau dysgwyr unigol.

- 3.20 Mae MAT yn elfen o flaenoriaeth ehangach yng Nghynlluniau Datblygu Ysgol tair o'r ysgolion a holwyd. Fel arfer, mae ysgolion arbennig yn mabwysiadu dull cynllunio person canolog i ganfod cryfderau thalentau amrywiol unigolion. Er mwyn sicrhau bod anghenion dysgu a chymorth penodol ar gyfer y dysgwyr MAT yn cael eu nodi, mae'r dysgwyr yn ymgymryd ag asesiadau gwaelodlin ar adeg mynediad. Hefyd defnyddir ystod eang o ddata perfformiad i helpu i ganfod darpar ddysgwyr MAT gan gynnwys:
- asesiadau ffurfiannol yn erbyn graddfeydd Perfformiad (P)<sup>10</sup>, canlyniadau Cyfnod Sylfaen a disgrifyddion lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol
  - Canlyniadau Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
  - Data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer<sup>11</sup>
  - Sgoriau prawf masnachol

Darperir tystiolaeth ychwanegol drwy ymuniaethiad ac enwebiad rhieni yn ystod yr arolwg blynyddol a thrwy drafodaethau cychwynnol wrth iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol.

- 3.21 Mae gan bob dysgwr gynlluniau addysg unigol (CAU) sy'n nodi talentau a galluoedd yr unigolyn. Yn dilyn mewnbwn gan staff yr ysgol, rhieni, pobl broffesiynol maes iechyd a therapyddion, gosodir targedau ar gyfer pob un dysgwr. Mae systemau asesu ysgol gyfan yn caniatáu staff i dracio'r dysgwyr MAT sy'n cwrdd â'u targedau neu'n rhagori arnyn nhw a chaiff y CAU eu diweddarau bob hanner tymor. Nododd ysgolion arbennig fod ganddyn nhw gysylltiadau sefydledig gydag ysgolion prif ffrwd a, lle bo'n briodol, gyda'u SAB lleol ac wedi datblygu eu cysylltiadau eu hunain, gan osod dulliau penodol, megis cynlluniau pontio, ar gyfer rhannu gwybodaeth am y dysgwyr MAT gyda lleoliadau eraill.

- 3.22 Dydy MAT ar y llaw arall ddim yn rhan o CDY y rhan fwyaf o'r Unedau Cyfeirio Disgyblion. Prif flaenoriaeth cychwynnol Unedau Cyfeirio Disgyblion ydy mynd i'r afael â phroblemau ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol pob dysgwr yn ogystal ag ennill eu hyder a'u parch. Gallai anghenion dysgu ychwanegol, ymddygiad y dysgwr ac amgylchiadau personol guddio gallu a thalent. Fel arfer, cynhelir asesiadau gwaelodlin a chanfod galluoedd a thalentau pob dysgwr fel rhan o'r broses broffilio ar adeg mynediad. Ar ôl canfod yr anghenion, caiff rhaglen unigol ei datblygu gyda thargedau dysgu, cymdeithasol ac emosiynol yn cael eu cofnodi yng Nghynllun Dysgu Unigol y Dysgwr. Rhennir gwybodaeth am botensial dysgu uwch neu dalentau penodol disgybl gyda'r rhieni yn anffurfiol ond hefyd drwy adroddiadau bob tymor ac yn ystod cyfarfodydd adolygu CAU ffurfiol lle trafodir cynnydd.

---

<sup>10</sup> Defnyddir graddfeydd perfformiad i nodi cyflawniad dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n gweithio ar lefel is na lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

<sup>11</sup> Mae Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT - Fischer Family Trust) yn darparu data a dadansoddiad y mae athrawon yn eu defnyddio i osod targedau ar gyfer dysgwyr.

- 3.23 Ymhlith y ffynonellau eraill o wybodaeth a ddefnyddir i ganfod y dysgwyr MAT mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion y mae adroddiadau seicolegwyr addysg a data ar berfformiad disgyblion y mae'r ysgolion prif ffrwd yn eu darparu. Dywed yr Unedau Cyfeirio Disgyblion eu bod yn ceisio cydweithio mewn partneriaeth ag ysgolion prif ffrwd i gynorthwyo a chefnogi'r dysgwyr MAT yn ystod y cyfnodau pontio, fodd bynnag, nodir bod ansawdd yr arferion gwaith o ran cyfeirio disgyblion i'r Uned Gyfeirio Disgyblion a'u hail-integreiddio yn yr ysgol yn amrywio'n fawr iawn. O ganlyniad, mewn rhai achosion, gallai'r broses o ganfod dysgwyr MAT gael ei llesteirio oherwydd diffyg gwybodaeth am broffil disgybl neu bod y wybodaeth yn cyrraedd yn hwyr o'r lleoliad dysgu blaenorol. Mae enghreifftiau mwy effeithiol, lle ceir prosesau ail-integreiddio a chyfeirio cyson gan awdurdodau lleol.

### Sefydliadau Addysg Bellach

- 3.24 Gan mai cyfeirio at ysgolion yn unig mae *Cyflawni'r Her*, mae'r rhan fwyaf o Sefydliadau AB wedi datblygu eu dehongliad eu hunain o'r hyn ydy'r mwy galluog a thalentog, sydd fel arfer yn delio â holl sbectrwm gallu a thalent.

*'Rydyn ni'n dehongli MAT fel y dysgwyr hynny sy'n rhagori yn y raglen astudio o'u dewis, boed yn alwedigaethol, academaidd, artistig neu greadigol. Dydy rhagori ddim o angenrheidrwydd yn golygu 'rhywun sy'n cyflawni'n uchel yn academaidd' – gallai fod yn cyfeirio at y rhai sy'n dangos gallu arbennig y gellid ei ddatblygu ymhellach.'*

Cyfarwyddwr Cwricwlwm a Dysgu mewn Sefydliad AB

- 3.25 Yn y rhan fwyaf o Sefydliadau AB ceir bod y dysgwyr mwy galluog yn astudio pynciau traddodiadol academaidd Lefel A, tra bod y dysgwyr mwyaf talentog yn cymryd yr opsiynau galwedigaethol ac yn astudio pynciau creadigol Lefel A.
- 3.26 Mae MAT yn nodwedd o gynllunio strategol y rhan fwyaf o Sefydliadau AB, yn ymwneud yn gyffredinol â chodi safonau a chynorthwyo a chefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial. Mae tua hanner yr enghreifftiau a geir yn cyfeirio at godi safonau academaidd y dysgwyr mwy galluog a thalentog o ran cymwysterau lefel 2 a 3 gyda dangosyddion manwl megis targedau ar gyfer gwella canlyniadau'r ganran sy'n cyflawni graddau A/A\*. Nododd lleiafrif o Sefydliadau AB fod ganddyn nhw dargedau penodl i gynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i brifysgolion Grŵp Russell<sup>12</sup>.
- 3.27 Er bod cynlluniau cyfadrannau llawer o Sefydliadau AB yn cynnwys MAT, does ganddyn nhw ddim dull cyson coleg cyfan o fynd ati i ganfod yr ystod llawn o'r dysgwyr MAT. Fel arfer, bydd tiwtoriaid cwrs a/neu staff derbyn yn adolygu proffiliau cymwysterau y myfyrwyr sy'n dod i mewn. Mae tuedd i'r dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n ymrestru i astudio pynciau Lefel A gael eu canfod ar sail eu proffil academaidd. Mae rhai Sefydliadau AB yn defnyddio meincnod penodol i'r coleg i ganfod dysgwyr MAT gan ddefnyddio canran benodol o

<sup>12</sup> Prifysgolion blaengar ymchwil dwys yn y Deyrnas Unedig.



raddau A/A\* TGAU. Nodir y dysgwyr hynny sydd am fynd i brifysgolion Grŵp Russell a chysiau meddygaeth drwy eu graddau mynediad, cyfweiliadau a thrwy diwtorialau. Oherwydd bod y prosesau canfod yn ffocysu ar y lefelau y mae'r dysgwyr yn gweithredu arny'n nhw wrth gael eu derbyn, mae rhai Sefydliadau AB hefyd yn cynnal asesiadau diagnostig o sgiliau gwaelodlin gyda dysgwyr newydd er mwyn canfod y potensial dysgu.

- 3.28 Nododd rheolwyr AB nad ydy dysgwyr MAT y meysydd ymarferol a chreadigol galwedigaethol yn cael eu canfod yn yr un modd â'r rhai sy'n dilyn cyrsiau lefel Uwch. Gan nad ydy proffiliau TGAU o angenrheidrwydd yn arwydd dibynadwy o allu a thalent, canfyddir dysgwyr creadigol hefyd o'u portffolio o waith, clyweiliadau, datganiadau personol a chysylltiad â staff yr ysgol. Caiff pobl dalentog ym maes chwaraeon eu canfod drwy gyfweiliad a chysylltiad â staff yr ysgol. Mae dysgwyr galwedigaethol sy'n meddu ar sgiliau ymarferol penodol, talentau a doniau yn cael eu canfod ar ôl iddyn nhw gychwyn astudio eu dewis gwrs. Yna, bydd staff yn sicrhau bod cyfleoedd cyfoethogi a heriau yn rhan o raglenni astudio'r dysgwyr MAT. Cytunodd dysgwyr MAT bod cael eu nodi'n alluog a thalentog yn brofiad positif yn gyffredinol a'u bod yn fodlon ar y cymorth ychwanegol a ddarparwyd i'w helpu i gyflawni eu potensial.
- 3.29 Defnyddir cymwysterau mynediad a chanlyniadau asesiad gwaelodlin cychwynnol i greu proffil, cynllun dysgu unigol electronig (e-CDU) ar gyfer pob dysgwr. Mae'r systemau a ddefnyddir megis y System Wybodaeth Lefel A (Alis) yn darparu data rhagfynegi a dadansoddiad o werth ychwanegol i lunio targedau graddau i bob dysgwr ymgyrraedd atyn nhw ymhob pwnc a astudir. Mewn colegau lle defnyddir y cyfryw systemau, gall staff ganfod dysgwyr MAT ac uwchlwytho graddau targed i'w e-CDU a gaiff ei ddiweddarau gan y dysgwr a'r staff. Mae tiwtorialau un-i-un yn fodd parhaus o ganfod galluoedd a thalentau ychwanegol wrth i'r rhaglenni fynd yn eu blaen.
- 3.30 Nododd pob Sefydliadau AB a gymerodd ran yn y prif arolwg (n = 10) fod staff yn hyderus yn eu gallu i ganfod dysgwyr MAT. Fodd bynnag, nododd rheolwyr AB fod y duedd i ddosbarthu dysgwyr AB MAT yn rhai academiaidd neu'n rhai galwedigaethol yn broblem, gan ystyried bod angen datblygu meini prawf mwy cyfannol i ganfod dysgwyr MAT er mwyn adnabod talentau a galluoedd dysgwyr MAT galwedigaethol yn well.
- 3.31 Nododd Sefydliadau AB bod effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i gynorthwyo dysgwyr MAT yn ystod y cyfnod pontio yn amrywio'n fawr ac yn gyffredinol yn faes i'w ddatblygu. Hyd yn oed pan fydd cysylltiadau yn seiliedig ar ysgolion uwchradd sy'n bwydo e.e. colegau chweched dosbarth a chanolfannau chweched dosbarth mewn colegau trydyddol, mae trosglwyddo gwybodaeth o ansawdd am gyflawniadau a thalentau dysgwyr unigol yn anghyson.

## Consortia Rhanbarthol<sup>13</sup> ac Awdurdodau Lleol

3.32 Mae'r consortia rhanbarthol i gyd yn ymwybodol o gyfarwyddyd *Cyflawni'r Her* ond yn y mwyafrif o achosion dydy'r cyfarwyddyd ddim wedi dylanwadu ar eu gwaith gydag ysgolion. Er eu bod yn ymwybodol bod dehongliad ehangach o ddysgwyr MAT yn cynnwys talent yn ei ystyr ehangach, y flaenoriaeth allweddol i'r consortia rhanbarthol ydy gwella canlyniadau academaidd pob dysgwr. Mae consortia rhanbarthol yn ffocysu llai ar ganfod talent yn benodol a'i ddatblygu.

3.33 Mae ymgynghorwyr her mewn cysylltiad cyson ag ysgolion a hwn ydy'r fforwm lle trafodir pa mor effeithiol ydy'r ddarpariaeth ar gyfer MAT, gan gynnwys canfod MAT a chynnydd dysgwyr MAT, fel arfer yn rhan o drafodaeth ehangach ar gyflawniad disgyblion. Mae ymgynghorwyr herio yn ffocysu ar wella perfformiad academaidd. Maen nhw hefyd yn trafod argymhellion ym ymwneud â MAT a nodwyd mewn adroddiadau arolwg ysgolion unigol yn ystod eu gwaith i gynorthwyo gweithredu Cynlluniau Gweithredu ar Ôl Arolwg.

*'Os ydy darparu ar gyfer MAT yn broblem, yna bydd yr ymgynghorydd her yn herio hyn ac yn helpu'r ysgol i sefydlu strategaethau ac arfau priodol i wella safonau ar gyfer dysgwyr MAT.'*

Ymgynghorydd Arweinol Herio

3.34 Mae'r AauLI i gyd yn ymwybodol o gyfarwyddyd *Cyflawni'r Her* ac yn nodi ei fod wedi'i ddefnyddio yn sail i'w cynlluniau strategol ar gyfer dysgwyr MAT. Nodwyd bod ffynonellau cyfarwyddyd eraill yn cael eu defnyddio ac yn eu plith:

- Dogfennau cyfarwyddyd eraill Llywodraeth Cymru sy'n cyfeirio at ddysgwyr mwy galluog a thalentog
- Cyfarwyddyd cyflenwol Estyn ar MAT
- Canfyddiadau adroddiad arolwg ysgolion unigol
- Deunyddiau NACE Cymru a meini prawf achredu'r Wobr Her.

3.35 Mae MAT yn aml yn nodwedd o flaenoriaeth ehangach yng nghynlluniau strategol y rhan fwyaf o ALI. Fe arfer, mae blaenoriaethau yn mynd i'r afael â hyrwyddo addysgu a dysgu o ansawdd uchel i gwrdd ag anghenion yr holl ddysgwyr. Mae'r pwyslais ar wella perfformiad academaidd gyda thargedau ar gyfer codi safonau gan ffocysu ar gynyddu'r gyfran o ddysgwyr sy'n cyflawni'n uwch na'u lefel disgwyledig ar bob pwynt asesiad crynodol. Mae'r AauLI yn ffocysu lawer llai ar ganfod a datblygu talentau dysgwyr.

3.36 Mae mwyafrif o AauLI yn mabwysiadu'r diffiniad a geir yn *Cyflawni'r Her* neu ddiffiniadau sefydliadau eraill megis NACE Cymru. Mae tua hanner yr AauLI wedi datblygu a dosbarthu cyfarwyddyd MAT i ysgolion. Dywedodd lleiafrif o AauLI fod ganddyn nhw strategaeth, polisi neu gynllun gweithredu penodol cyfredol ar gyfer MAT.

<sup>13</sup> Sefydlwyd consortia rhanbarthol 'gwella ysgol' i weithio ar ran awdurdodau lleol i arwain a llunio a chydlynu'r gwelliant ym mherfformiad ysgolion ac addysg pobl ifanc. Fodd bynnag, yr awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros ysgolion a gwella ysgolion.

- 3.37 Nododd llawer o AauLI (n = 14 allan o 17) a gymerodd ran yn y prif arolwg bod eu staff yn hyderus yn eu gallu i gynorthwyo ysgolion i ganfod dysgwyr MAT. Defnyddir data y rhai sy'n gadael ysgol i ddatblygu dealltwriaeth gliriach gyda phenaethiaid o'r angen i ddarparu mwy o hyd a lled yn y cyfleoedd dysgu er mwyn galluogi dysgwyr MAT i gyflawni eu potensial. Dydy gwybodaeth am dalentau dysgwyr ddim wedi'i gynnwys ym mhrosesau'r AauLI ar ddadansoddi data.
- 3.38 Darparodd y rhan fwyaf o AauLI adborth positif ar ba mor effeithiol ydy trefniadau pontio o ysgol i ysgol. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o AauLI yn cydnabod bod angen datblygu'r arfer o rannu gwybodaeth am ddysgwyr MAT yn ystod y cyfnod pontio o ysgolion i Sefydliadau AB.
- 3.39 Cyn cyflwyno gweithio rhanbarthol, roedd gan y mwyafrif o AauLI swyddog dynodedig gyda chyfrifoldeb arweiniol dros MAT. Ar hyn o bryd, wrth i weithio rhanbarthol esblygu, ceir anghysondeb yn y modd y rheolir y ddarpariaeth ar gyfer MAT ar lefel consortia rhanbarthol ac ar lefel yr ALI eu hun. Mae uwch reolwyr yr AauLI yn cydnabod nad ydy'r arfer o ddarparu cyngor ar MAT i ysgolion bob amser mor systematig ag y gallai fod.

*'Mae angen mwy o gysondeb ar draws ALI a chonsortia rhanbarthol fel bod ysgolion yn deall y diffiniad, yn gwybod pa ddarpariaeth ac adnoddau sydd ar gael a'r hyn a ddisgwylir ganddyn nhw. Fel ALI, mae rhaid i ni sefydlu gwell perthynas gyda'r consortiwm rhanbarthol. Mae'n bwysig bod yr ALI, y consortiwm rhanbarthol a'r cynghorwyr herio yn cyfleu'r un neges i ysgolion am ddarpariaeth MAT.'*

### Partion eraill â diddordeb

- 3.40 Mae gan lawer o'r rhanddeiliaid a holwyd, oherwydd natur y rhaglenni y maen nhw'n eu darparu, ddiddordeb arbennig mewn canfod a datblygu talent ym maes chwaraeon, creadigol neu gerddorol ac felly, maen nhw'n diffinio dysgwyr mwy galluog a thalentog yn y termau hynny..

*'Rydyn ni'n dehongli MAT fel y bobl ifanc hynny sy'n ymwneud â cherddoriaeth, dawn a theatr ar lefel leol a rhanbarthol ac sy'n arddangos priodweddau, doniau a sgiliau y gellid eu datblygu i lefel uwch a mwy heriol.'*

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru (CCIC)

- 3.41 Mae'r graddau y mae rhanddeiliaid yn rhan o'r broses o ganfod dysgwyr MAT yn amrywio yn ôl natur eu rhaglenni. Mewn llawer o achosion mae canfod dysgwyr MAT yn digwydd yn yr ysgol neu yn y coleg. Er enghraifft, mae rhai sefydliadau celfyddydol yn gweithio ar sail argymhellion, yn dibynnu ar athrawon i ddarparu enghreifftiau o waith dysgwyr sy'n arddangos talent yn y celfyddydau gweledol. Yn yr un modd, mae AauLI yn enwebu dysgwyr sy'n arddangos talent a gallu mewn ysgrifennu creadigol i fod yn aelodau o Sgwadiau Ysgrifennu Lleol<sup>14</sup>. Ond fel arfer, mae sefydliadau rhanddeiliaid

<sup>14</sup> Mae Llenyddiaeth Cymru wedi datblygu Sgwadiau Ysgrifennu ar y cyd ag awdurdodau lleol. Cynhelir y sesiynau fel arfer ar Ddydd Sadwrn neu ar ôl ysgol, a'r bwriad ydy cyflwyno dysgwyr cynradd ac

celfyddydol cenedlaethol yn cynnal clyweliadau rhanbarthol a chenedlaethol i ganfod pobl ifanc dalentog sydd wedyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn rhaglenni arbenigol.

- 3.42 Mae sefydliadau rhanddeiliaid chwaraeon sy'n darparu cyfleoedd allgyrsiol ar gyfer dysgwyr MAT yn nodi bod ganddyn nhw strwythurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ganfod unigolion i gymryd rhan yn eu rhaglenni datblygu talent. Mewn rhai achosion, mae'r canfod cychwynnol yn digwydd yn yr ysgol tra bod sefydliadau rhanddeiliaid chwaraeon cenedlaethol sydd ddim yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion yn canfod pobl ifanc dalentog yn bennaf drwy rwydweithiau clwb ac yn ystod cystadlaethau.

## 4. Y camau a weithredwyd i gynorthwyo a herio dysgwyr MAT

Mae'r adran hon yn disgrifio:

- y camau a weithredwyd gan ysgolion, Sefydliadau AB, AauLI a sefydliadau eraill i gynorthwyo a herio dysgwyr MAT o adeg eu canfod a sut caiff y rhain eu hariannu
- y partneriaethau y mae ysgolion a SAB wedi'u sefydlu gyda sefydliadau eraill
- y ffyrdd y cynigir cymorth a gwybodaeth i rieni dysgwyr MAT

### Ysgolion

- 4.1 Nododd y rhan fwyaf o ysgolion (91%) fod eu staff yn hyderus yn eu gallu i gynorthwyo dysgwyr MAT gyda thua hanner yr ysgolion yn datgan eu bod yn darparu cymorth bugeiliol penodol, yn bennaf i grwpiau bychain neu fentora unigol gan y Cydlynnydd MAT. Ymhlith yr enghreifftau eraill a gafwyd oedd cymorth Anogwyr Dysgu i ddysgwyr MAT oedran 14-19 a'r cymorth a dargedwyd at y rhai sy'n gwneud cais i fynd i Rydychen, Caergrawnt ac i brifysgolion blaengar eraill. Er bod ysgolion wedirhoi enghreifftiau o diwtora gan gymheiriad gan ddysgwyr hŷn MAT, prin oedd y rhai a nododd fod ganddyn nhw rwydwaith cymorth cymheiriaid ar gyfer dysgwyr MAT. Gwelwyd o'r adborth a gafwyd gan ddysgwyr MAT bod ansawdd y cymorth a'r cyngor a dderbynion nhw yn amrywio o ysgol i ysgol.
- 4.2 Mae dysgwyr MAT sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim (e-FSM) yn derbyn cymorth penodol i oresgyn rhwystrau i'w dysgu, naill ai fel unigolion neu mewn grwpiau bach mewn tua hanner o'r ysgolion. Nododd ysgolion hefyd eu bod yn cymorthdalau costau gweithgareddau cyfoethogi, yn darparu mynediad i adnoddau dysgu a chyfarpar ysgol ar gyfer gwaith cartref ac, yn achos rhai ysgolion uwchradd, yn cymryd rhan mewn partneriaethau Ymgyrhaedd yn Ehangach<sup>15</sup>.

*Rydyn ni'n cynnal sesiynau prydau ysgol am ddim ar gyfer MAT a ariennir gan y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn gallu cyrraedd eu gwir botensial. Hefyd, mae gennym fentor dysgu digidol i weithio gyda disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.'*

Pennaeth Ysgol Fabanod

- 4.3 Nododd llawer o ysgolion (80%) fod eu staff yn hyderus yn eu gallu i herio dysgwyr MAT. Pan ofynnwyd iddyn nhw nodi strategaethau yn ymwneud â chwricwlwm MAT, dywedodd bron i bob ysgol bod tasgau mwy heriol yn yr arfaeth o ran gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu o ddydd i ddydd ar gyfer pob dysgwr. Dim ond ychydig o ysgolion ddywedodd fod y dull hwn o fynd ati

<sup>15</sup> Wedi'i ariannu gan Gyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru, nod y rhaglen Ymgyrhaedd yn Ehangach ydy cynyddu'r nifer o grwpiau a chymunedau a dargedwyd sydd mewn addysg uwch drwy godi dyheuadau a sgiliau addysgol. Mae Ymgyrhaedd yn Ehangach yn defnyddio dau brif grŵp sy'n cael eu tan-gynrychioli mewn addysg uwch: pobl yn byw mewn ardaloedd difreintiedig a phlant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal.

yn cael ei ategu drwy dynnu grwpiau bychain o ddysgwyr MAT allan i weithio gyda'i gilydd ar dasgau estynedig sy'n delio ag ystod o bynciau'r cwricwlwm.

*Yn Ysgol Fabanod Mynachlog Nedd, (Neath Abbey Infant School) gwelwyd, ar ôl archwilio gwaith disgyblion ac asesiadau ffurfiannol, bod angen darparu gweithgareddau i ymestyn ysgrifennu disgyblion MAT ar draws y gwahanol 'genres'. Gan weithredu ar argymhellion tîm Llythrennedd yr awdurdod lleol, gwahoddod yr ysgol awdur lleol i gynnal gweithdai ar gyfer disgyblion MAT Blwyddyn 2 ac wedi hynny cyhoeddwyd eu gwaith a'i gyflwyno i amrediad o gynulleidfa oedd gan gynnwys rhieni a'r llywodraethwr MAT. Mae disgyblion Blwyddyn 2 hefyd yn ysgrifennu adran o'r cylchlythyr wythnosol ar gyfer rhieni.*

*Mae monitro ysgol gyfan wedi sefydlu bod disgyblion MAT yn cael eu symbylu i ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfa oedd, yn creu darnau ysgrifennu mwy estynedig ac yn cyflawni eu targedau dysgu. Mae gan bob disgybl MAT 'bartner hirbell' i gynnig cymorth a chyfle i siarad gydag oedolyn ar wahân i'w hathro dosbarth am unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw. Er mwyn helpu i ddatblygu'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r teulu, gwahoddir rhieni i'r ysgol i weithio ar dasg gyda'u plant. Mae'r ysgol hefyd yn cynhyrchu cylchlythyr bob hanner tymor ar gyfer rhieni disgyblion MAT.*

- 4.4 Nododd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd bod gwahaniaethu yn strategaeth allweddol a ddefnyddir i herio dysgwyr ar bob lefel gallu. Gan ddefnyddio proffiliau dysgwyr unigol a data asesu, nododd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod yn teiwra gweithgareddau ac adnoddau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer unigolion MAT i ddysgu'n annibynnol. Nodwyd bod dulliau amrywiol o fynd ati i addysgu hefyd yn nodwedd o arferion ystafell ddosbarth a ddefnyddir i ymestyn dysgwyr MAT mewn llawer o ysgolion. Ymhlith yr enghreifftiau eraill a gasglwyd o gwricwlwm heriol oedd dosbarthiadau meistr penodol i bwnc a gweithdai clwstwr ar gyfer dysgwyr MAT. Fodd bynnag, cymysg oedd yr ymateb gan ddysgwyr am eu profiadau yn yr ystafell ddosbarth gyda rhai yn dweud nad oedden nhw wedi cael eu herio ymhellach ar ôl iddyn nhw orffen tasgau. Eu canfyddiad oedd mewn rhai achosion, y byddai athrawon yn defnyddio dysgwyr MAT i helpu dysgwyr llai abl gyda'u gwaith.

*'Mae datblygu sgiliau dysgwyr MAT yn amlwg yn cael ei wahaniaethu ymhob cynllunio ac asesir yn erbyn targedau sy'n ymddangos mewn cylluniau tymor byr. Gweithredir ymyriadau os ydy'r cynnydd yn is na'r disgwyl.'*

Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd

- 4.5 Nododd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod yn ychwanegu tasgau heriol yn y dosbarth gyda gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol, amser cinio ac ar ôl ysgol er mwyn ymestyn dysgwyr MAT a datblygu talent. Dywedodd tua hanner yr ysgolion eu bod hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i ddarparu cyfleoedd cyfoethogi yn y gymuned. Er mai ychydig o ysgolion sy'n darparu gwybodaeth am gyfleoedd cyfoethogi MAT i ddysgwyr drwy eu gwefannau, prin oedd yr ysgolion hynny a nododd eu bod yn gyfredol yn

defnyddio sianeli'r cyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth ac ymglymu dysgwyr MAT.

4.6 Nododd tua hanner yr ysgolion eu bod yn darparu gweithgareddau penodol i herio dysgwyr eithriadol o alluog. Ymhlith enghreifftiau gan ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd mae:

- grwpiau rhifedd ymestynnol e.e. y mwyaf galluog ym Mlwyddyn 6 yn gweithio ar gwestynau mathemateg TGAU gyda help a chefnogaeth Cynorthwydd Cymorth Dysgu;
- gweithgareddau a chystadlaethau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg;
- llwyfannau masnachol ar-lein i annog dysgu annibynnol a datblygu uwch sgiliau llythrennedd a rhifedd;
- gweithio gyda staff ysgolion uwchradd lleol i ddarparu hyfforddiant mathemateg ar lefel uwch ar gyfer grwpiau bach o ddysgwyr;
- cymryd rhan mewn cystadlaethau megis Her Mathemateg y DU a Gemau Olympaidd Ieithoedd Ewrop Gyfan; a
- chyfleoedd i astudio pynciau ychwanegol TGAU e.e. Mandarin, seicoleg a seryddiaeth.

4.7 Mae dysgwyr MAT yn cydnabod eu bod wedi cymryd rhan mewn amrediad o weithgareddau cyfoethogi yn yr ysgol a hefyd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi gyda dysgwyr MAT o ysgolion eraill yn eu hardal leol, ac mewn rhai achosion yn genedlaethol.

4.8 Nododd tua dwy ran o dair o ysgolion eu bod yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i herio dysgwyr MAT. Roedd yr enghreifftiau mwyaf cyffredin a roddwyd yn cynnwys ysgolion eraill, Sefydliadau Addysg Uwch, darparwyr Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) a sefydliadau chwaraeon yn y gymuned a mudiadau diwylliannol.

*'Hoffwn sefydlu cysylltiadau dosbarth mistr gydag ysgolion eraill i wella'r ddarpariaeth a chynnig her.'*

Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd a Chydlynnydd MAT

4.9 Dim ond ychydig o ysgolion nododd eu bod yn derbyn cymorth effeithiol gan eu hawdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol i ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer MAT. Nodwyd fodd bynnag, mai NACE Cymru sy'n cael ei enwi amlaf fel y corff sy'n darparu cymorth arbenigol effeithiol.

4.10 Er mwyn sicrhau bod strategaethau MAT ysgol gyfan yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn effeithiol, nododd llawer o ysgolion bod eu staff wedi derbyn hyfforddiant proffesiynol ar faterion MAT yn ystod y tair blynedd diwethaf. Dywedodd tua hanner yr ysgolion eu bod wedi trefnu hyfforddiant ysgol gyfan, yn aml wedi'i gyflenwi gan y Cydlynnydd MAT a/neu uwch arweinwyr. Mae'r enghreifftiau a gafwyd yn cynnwys:

- cynllun datblygu gwaith pwnc-benodol;

- ystyried dulliau effeithiol o fynd ati i wahaniaethu;
- datblygu gweithgareddau ymestyn a thechnegau holi uwch eu lefel;
- safoni enghreifftiau o waith dysgwyr MAT Cyfnod Allweddol 2 ar lefelau uwch.

*Yn Ysgol Uwchradd Y Fflint, ysgol gyfun gymysg 11 - 18 oed, y prif flaenoriaeth oedd rhannu egwyddorion ac arferion cymorth effeithiol a her ar gyfer dysgwyr MAT er mwyn gwella safonau ar gyfer pob dysgwr o wahanol alluoedd. Ar ôl cyfres o arsylwi gwersi a'r ffocws ar MAT, lluniodd y Cydlynnydd MAT adroddiad yn datgan cryfderau a gwendidau addysgu a dysgu MAT ar draws yr ysgol. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys pum 'Disgwyliad MAT' yr ysgol i'w cymhwyso ymhob ystafell ddosbarth ynghyd â 'Strategaethau Llwyddo MAT' i staff eu hintegreiddio yn eu gwersi bob dydd.*

*Ar ôl cyfnod o weithredu'r dulliau newydd o fynd ati, mynychodd yr holl staff sesiwn HMS ar addysgu a dysgu MAT rhyngweithiol, a bwriad y cyfryw sesiwn oedd gwerthuso pa mor llwyddiannus fu'r staff yn gweithredu'r 'Strategaethau Llwyddo MAT' ac i rannu arferion MAT. Hefyd mynegodd grŵp o ddysgwyr MAT eu barn i'r staff am yr hyn roedden nhw'n ystyried oedd wedi bod yn wers ragorol. Roedd yr adborth a gafwyd o arolwg staff yn un positif iawn.*

*Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr MAT erbyn hyn yn gwneud ystod ehangach o dasgau sy'n hybu sgiliau meddwl uwch eu lefel a chael mwy o gyfleoedd i gael eu herio yn ystod gwersi. Hefyd, maen nhw'n profi gweithgareddau addysgu a dysgu sy'n eu galluogi i fod yn fwy uchelgeisiol.*

- 4.11 Er mwyn galluogi athrawon i ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgu MAT ymhellach a'i hymgorffori, comisiynodd Llywodraeth Cymru NACE Cymru i ddatblygu deunyddiau hyfforddi i ategu *Cyflawni'r Her*. Dosbarthwyd y *Pecyn Hyfforddiant ar gyfer y rhai Mwy Galluog a Thalentog* a'i fwriad oedd cynorthwyo ysgolion i ddarparu profiadau ymestyn dysgu uchel eu hansawdd ar gyfer dysgwyr MAT. Mae tystiolaeth yr arolwg yn dangos nad ydy'r *Pecyn 'MAT Training Pack'* ddim yn gyfarwydd i bawb ac nid yw wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth gan ysgolion i gynnal dysgu proffesiynol.
- 4.12 Nododd lleiafrif o ysgolion mai eu hawdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol materion MAT ac i rannu arferion, yn bennaf drwy gymunedau dysgu proffesiynol o fewn clystyrau ysgol ac ar draws yr ALI. Ymhlith yr enghreifftiau eraill a gafwyd o gyfleoedd ar gyfer ddatblygiad proffesiynol roedd cynadleddau a digwyddiadau NACE Cymru a digwyddiadau hyfforddi a datblygiad proffesiynol materion MAT a ddarperir gan sefydliadau masnachol.
- 4.13 Nododd arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion yr angen parhaus am gyllid i ariannu'r camau gweithredu i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr MAT gan gynnwys creu adnoddau addysgu, darparu gweithgareddau cyfoethogi a datblygiad parhaus athrawon. Ariennir pethau yn y rhan fwyaf o ysgolion yn bennaf o'u cyllid craidd, a'i ategu gan ffynonellau cyllid ychwanegol lle bo'n bosibl. Er enghraifft, nododd hanner yr ysgolion bod Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn cael ei ddefnyddio i ariannu ymyriadau llythrennedd a rhifedd ar gyfer dysgwyr MAT a defnyddir Grant Amddifadedd Disgyblion hefyd i gynorthwyo dysgwyr MAT sy'n derbyn prydau ysgol am ddim mewn tua hanner



o'r ysgolion. Defnyddir y cyllid fel hyn mewn amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys prynu adnoddau, i gyflogi Cynorthwyr Cymorth Dysgu, trefnu Dyddiau Dysgu MAT ac i ddarparu profiadau cyfoethogi i godi dyheadau.

- 4.14 Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon nifer fechan o ysgolion sy'n darparu cyllid ychwanegol, yn arbennig i gynorthwyo i ddatblygu talent. Nododd ysgolion hefyd eu bod yn cael grantiau lleol a chenedlaethol ac ariannu cyfatebol Cymunedau'n Gyntaf, a dibynnu ar eu lleoliad, i ariannu gweithgareddau cyfoethogi. Doedd y rhan fwyaf o ddysgwyr MAT ddim yn ymwybodol eu bod wedi derbyn arian ychwanegol, er bod rhai yn dweud eu bod wedi derbyn hyfforddiant cerdd am ddim a chael llogi offerynnau, tra bod dillad a chyfarpar chwaraeon weithiau'n cael eu darparu ar gyfer athletwyr talentog.
- 4.15 Mae *Cyflawni'r Her* yn gosod disgwyliad y dylai ysgolion wrando ar ac ystyried barn rhieni dysgwyr MAT, gan roi gwybodaeth iddyn nhw a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb dros gefnogi dysgu eu plant. Nododd y mwyafrif o ysgolion eu bod yn rhannu gwybodaeth am MAT gyda rhieni drwy amrywiaeth o ddulliau:

<b>Tabl 4</b>	
<b>Dulliau a ddefnyddir i rannu gwybodaeth am faterion MAT gyda rhieni</b>	<b>Ymateb (%)</b>
Rhannu cynnydd a thargedau mewn adroddiadau ysgrifenedig ar y cynnydd	65
Drwy lythyr e.e. gofyn am ganiatâd i ddysgwyr MAT fynychu gweithgareddau cyfoethogi	62
Cyfarfodydd cyson ar gynnydd a chyfarfodydd rhieni	59
Cyfarfodydd pontio Blwyddyn 6	40
Holiadur yn ceisio enwebiadau gan rhieni am dalentau eu plentyn	35
Dyddiau agored lle gall rhieni weld gwaith eu plant	34
Rhannu gwybodaeth am brosiectau dosbarth a thasgau gwaith cartref	30
Prosbectws ysgol	30
Llythyron cymeradwyo	27
Drwy wefan yr ysgol	21
Darparu cyfarwyddyd ysgrifenedig ar sut i gynorthwyo a chefnogi eu plentyn MAT	21
Ffynhonnell: E-arolwg ysgolion Y Prif Arolwg	

- 4.16 Er mwyn annog rhieni i gynorthwyo a chefnogi dysgu eu plant mae ychydig o ysgolion hefyd yn rhannu gwybodaeth am gystadlaethau a gwefannau'n

ymwneud â materion MAT. Fodd bynnag, nododd rhieni bod diffyg gwybodaeth am faterion MAT, am yr hyn ydy MAT a'r hyn ddylai ddigwydd mewn ysgolion. Er eu bod yn cydnabod enghreifftiau o arferion da, amlygodd rhieni anghysonderau yn y dulliau a ddefnyddir o fynd ati i ganfod dysgwyr MAT ac am ansawdd y cymorth a'r her ar gyfer dysgwyr MAT o fewn yr ysgolion ac ar draws ysgolion.

*Yn Ysgol Uwchradd y Drenewydd, y nod oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith holl aelodau cymuned yr ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag arferion MAT yr ysgol; sut mae'n diffinio MAT, y ddarpariaeth sydd ar gael, a'r systemau tracio a monitro sy'n bodoli ar gyfer dysgwyr MAT. Yn fwy pwysig, roedd yr ysgol hefyd am i bawb weld sut mae'r holl bethau hyn yn codi dyheadau pob dysgwr, boed ar restr MAT yr ysgol ai peidio. Cynhaliwyd gwasanaethau gyda phob grŵp blwyddyn i rannu disgwyliadau gyda phob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n fwy galluog a thalentog. Cynhaliwyd lansiad tebyg gyda llywodraethwyr yn ystod cyfarfod llawn y corff llywodraethol ac mae llywodraethwr MAT yn derbyn adborth cyson gan y Cydlynnydd MAT am weithgareddau MAT. Mae llawlyfr yr ysgol ar gyfer y teulu yn cynnwys gwybodaeth benodol gan roi cyngor i rieni am y modd y gallan nhw gynorthwyo a chefnogi eu plant. Mae rhieni hefyd yn derbyn gwybodaeth am raglen MAT drwy lythyr a thrwy gylchlythyr yr ysgol a thudalen Facebook. Mae'r canlyniad yn ddull cydlynol, ysgol gyfan o fynd ati i ddeall MAT. O ganlyniad, mae pawb yn gallu cynorthwyo dysgwyr MAT i gyflawni eu potensial.*

- 4.17 Nododd pob ysgol arbennig a holwyd eu bod yn darparu cymorth penodol a her ar gyfer eu dysgwyr MAT yn seiliedig ar dalentau a galluoedd pob dysgwr. Caiff cynlluniau unigol eu datblygu i ddarparu gweithgareddau dysgu gwahaniaethol i gwrdd ag anghenion dysgwyr MAT. Caiff adnoddau ychwanegol eu prynu i ymestyn y dysgwyr mwy galluog, er enghraifft defnyddio cyfrifaduron tabled i hybu llythrennedd bechgyn, ac os oes angen, prynir cymorth arbenigol i mewn ar gyfer dysgwyr talentog, er enghraifft, ar gyfer hyfforddiant chwaraeon, neu wersi cerddoriaeth a chelf.
- 4.18 Nododd ysgolion arbennig eu bod yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i'w cynorthwyo a herio dysgwyr MAT. Ymhlith yr enghreifftiau a gafwyd mae:
- y Sefydliad AB lleol a Rhwydwaith 14-19;
  - 'Dewis Gyrfa' i ddarparu cyngor am gyfleoedd ar gyfer cynnydd a help gyda chynllunio person-ganolog o 14 oed ymlaen;
  - Swyddogion Chwaraeon i'r Anabl; a
  - busnesau lleol sy'n darparu lleoliadau gwaith ar gyfer dysgwyr MAT
- 4.19 Gall dysgwyr MAT hefyd fynychu dosbarthiadau yn yr ysgol uwchradd leol ar gyfer y pynciau y maen nhw'n arddangos gallu a thalent ynddyn nhw. Mewn achosion fel hyn, bydd athrawon ysgol arbennig yn gweithio fel arfer gyda chydweithwyr prif ffrwd i ddatblygu adnoddau gwahaniaethol i gwrdd ag anghenion dysgu eu dysgwyr ac mae Cynorthwywyr Cymorth Dysgu yn darparu cymorth personol ychwanegol. Roedd pob sgol arbennig a holwyd yn nodi bod eu staff wedi derbyn peth hyfforddiant ar faterion MAT.
- 4.20 Ariennir MAT mewn ysgolion arbennig yn bennaf o gyllideb graidd yr ysgol. Er enghraifft, mae un ysgol yn ariannu tri anogwr dysgu i alluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi a hefyd mae'r ysgol yn cael dysgwyr MAT i gystadlu mewn cystadlaethau ochr yn ochr â dysgwyr ysgolion prif ffrwd.

Mae ysgolion arbennig yn defnyddio ffynonellau ychwanegol cyllido megis y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion i gyflogi cynorthwywyr addysgu arbenigol sy'n darparu cymorth un-i-un wedi'i dargedu a gweithgareddau grwpiau bychain ar gyfer llythrennedd a rhifedd ac i ariannu hyfforddiant ar gyfer staff. Defnyddir Grant Amddifadedd Disgyblion i ariannu cymorth arbenigol ychwanegol megis Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) a chynorthwywyr addysgu i ddarparu cymorth un-i-un wedi'i dargedu, ynghyd â gweithgareddau cyfoethogi ac ymweliadau preswyl.

- 4.21 Nododd ysgolion arbennig bod targedau dysgu unigol perthnasol i MAT, rhai academaidd a rhai personol, yn cael eu hadolygu bob tymor a'u trafod gyda'r dysgwyr a'u rhieni yn yr arolwg blynyddol ac mewn nosweithiau rhieni a gynhelir bob tymor. Mae rhieni yn cyfrannu at y broses gynllunio disgybl-ganolog yn ystod yr arolwg blynyddol tra bod cyfle i rieni gwrdd â staff a thrafod anghenion cymorth dysgwyr unigol mewn cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd. Dethlir llwyddiannau dysgwyr unigol MAT.
- 4.22 Nododd Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd eu bod yn mabwysiadu dull wedi'i bersonoli o fynd ati. Cofnodir targedau perthnasol i MAT mewn Cynlluniau Dysgu Unigol, darperir gwersi un-i-un i ymestyn dysgwyr MAT a darperir cymorth personol. Gan nad oes ganddyn nhw fawr o reolaeth dros eu cyllideb, mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gweithio'n agos gyda'u rheolwr o'r ALI i ariannu darpariaeth MAT. Fodd bynnag, nodwyd ganddyn nhw nad ydyn nhw'n derbyn fawr o gymorth gan eu Hawdurdod Lleol na'r consortiwm rhanbarthol i ddatblygu darpariaeth effeithiol ar gyfer MAT. Mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau erall i gynorthwyo a herio dysgwyr MAT. Ymhlith yr enghreifftiau a gafwyd roedd ysgolion prif ffrwd, Sefydliadau Addysg Bellach, mudiadau yn y gymuned megis canolfannau celfyddydol a mudiadau elusenol fel Ymddiriedolaeth y Tywysog.

### **Sefydliadau Addysg Bellach**

- 4.23 Nododd saith o'r deg Sefydliad AB (SAB) a gymerodd ran y Prif Arolwg fod eu staff yn hyderus yn eu gallu i gynorthwyo a herio dysgwyr MAT. Nodon nhw amrediad o'r camau y maen nhw'n eu gweithredu i ddarparu cymorth a chefnogaeth ar gyfer dysgwyr MAT. Mae tiwtoriaid cwrs a Chydlynwyr MAT yn cynnal trafodaethau un-i-un gyda dysgwyr MAT i sefydlu sut maen nhw'n perfformio yn erbyn eu targedau unigol personol ac i ganfod pa gymorth ychwanegol fyddai angen efallai. Mae dysgwyr MAT hefyd yn cael eu mentora gan fentoriaid arbenigol; er enghraifft, mae dysgwyr ar Raglen Addysg ar gyfer Disgyblion Dawnus a Thalentog mewn un SAB yn ffurfio grŵp tiwtorial ar wahân a chael eu mentora gan diwtoriaid pwnc arbenigol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o SAB yn nodi nad ydyn nhw'n darparu rhwydwaith cymorth cymheiriaid ar draws y coleg i gysylltu dysgwyr MAT â'i gilydd.
- 4.24 Yn y rhan fwyaf o SAB darperir cymorth a dargedwyd ar gyfer dysgwyr MAT sy'n gwneud cais am le ym Mhrifysgol Rhydychen neu Gaergrawnt ac, mewn rhai achosion, ar gyfer dysgwyr yn gwneud cais am le ym mhrifysgolion eraill Grŵp Russell. Mae'r cymorth yn cynnwys mentora, cyngor ar lunio datganiadau personol, ffug gyfweiliadau, sgyrsiau gan israddedigion Oxbridge, ymweliadau â

dyddiau agored a rhai gan diwtoriaid mynediad prifysgol i gynnig gweithdai ar gwblhau cais UCAS. Mewn rhai achosion gwahoddir cyn-fyfyrrwyr a siaradwyr gwadd i ddod i sôn am eu profiadau o Addysg Uwch a'u swyddi i ysbrydoli a rhoi gwybodaeth i ddysgwyr cyfredol.

Yng Ngholeg Cambria, canfyddir dysgwyr MAT fel y 10% uchaf o ddysgwyr ar y rhaglen Lefel A h.y. y rhai sy'n meddu ar raddau gorau TGAU. Mae hyn tua 40 dysgwr y flwyddyn sy'n ffurfio grŵp tiwtorial mwy galluog a thalentog, amgylchedd cystadleuol sy'n meithrin cyflawniad uwch a chymorth cymheiriaid.

Mae gan bob dysgwr Gynllun Dysgu Unigol (CAU). Gosodir targedau i unigolion i sicrhau bod y dysgwyr MAT yn cael eu hymestyn a'u herio. Caiff cynnydd dysgwyr Lefel A MAT ei dracio a'i feincnodi yn erbyn eu targedau. Targedir nifer sylweddol i gyflawni A\*/A. Mae timoedd pynciau Lefel A yn trafod dysgwyr a monitro eu cynnydd mewn cyfarfodydd tîm ac mae mentoriaid yn paratoi dysgwyr MAT ar gyfer cael mynediad i brifysgolion a chyrsgiau cystadleuol ac yn arbennig ar gyfer mynediad i Oxbridge. Mae'r Coleg hefyd yn cynnal digwyddiadau rhanbarthol prifysgol Rhydychen a Chaergrawnt i ddatblygu techneg cyfweld dysgwyr MAT a llunio datganiadau personol.

Anogir dysgwyr i wneud cais am ystod o ddigwyddiadau allgymorth ac ysgolion haf. Yn ogystal mae dysgwyr yn mynychu achlysuron penodol i'w pwnc megis Ysgol Fathemateg y Pasg Oxbridge. Mae'r rhain nid yn unig yn ehangu eu profiad ond yn galluogi dysgwyr i sylweddoli bod yr uchelgais o fynychu prifysgolion blaengar yn rhywbeth y gallan nhw ei gwireddu. Mae cyn ddysgwyr sydd, erbyn hyn, yn astudio yn Rhydychen, Caergrawnt neu brifysgolion eraill Grŵp Russell, yn dychwelyd i'r Coleg i sôn am eu profiadau a darparu modelau rôl i'r dysgwyr cyfredol. Mae effaith y cymorth sy'n cael ei gynnig yn un positif iawn; o'r rhai sy'n gwneud cais am le mewn prifysgolion blaengar, mae'r cyfraddau llwyddiant yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

4.25 Nododd y rhan fwyaf o Sefydliadau AB fod dysgwyr MAT o gefndiroedd difreintiedig yn derbyn cymorth penodol i oresgyn rhwystrau i'w haddysg. Ymhlith yr enghreifftiau a gafwyd roedd:

- cymorth academaidd un-i-un, ac anogaeth i anelu'n uchel
- help gan fentoriaid o blith y staff i wneud cais i brifysgol a hyfforddiant ar gyfer cael cyfweiliad
- cymorth i wneud cais i fynychu ysgolion haf mewn prifysgolion lleol gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hariannu gan Bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach.

4.26 Mae gan leiafrif o SAB hefyd gysylltiadau gydag Ymddiriedolaeth Sutton<sup>16</sup> ac Ymddiriedolaeth Addysg Villiers Park<sup>17</sup> i helpu dysgwyr MAT o gefndiroedd difreintiedig ennill profiad wrth wneud cais am le mewn prifysgolion blaengar.

<sup>16</sup> <http://www.suttontrust.com/programmes/uk-summer-school-2/>

<sup>17</sup> <http://www.villierspark.org.uk/>

Mae lleoliadau ymchwil Sefydliad Nuffield, a reolir yng Nghymru gan Techniquet, hefyd yn targedu dysgwyr MAT ôl-16 oed o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig heb hanes teuluol o fynd i brifysgol. Mae dysgwyr sy'n gwneud cais llwyddiannus, yn mynd ar leoliad 4-6 wythnos i ymgymryd â materion STEM yn ystod cyfnod y gwyliau haf.

- 4.27 Yn ogystal ag annog dysgwyr MAT i wneud cais am Grant Dysgu AB Llywodraeth Cymru<sup>18</sup>, nododd SAB eu bod yn darparu cymorth ariannol pellach drwy gronfeydd Cymorth Dysgwyr, bwrsariau ac ysgoloriaethau. Mae SAB hefyd yn darparu cyllid i ddysgwyr MAT sydd angen help i gymryd rhan mewn digwyddiadau allgyrsiol ac i helpu i dalu am gludiant a chostau llety i fynychu clyweliadau neu gyfweiliadau.
- 4.28 Nododd y rhan fwyaf o Sefydliadau AB eu bod yn mabwysiadu ystod o strategaethau i herio dysgwyr MAT. Cynllunir cyfleoedd dysgu gwahaniaethol gan y staff addysgu a bydd rheolwr y cwricwlwm yn arsylwi'r addysgu a'r dysgu i weld yr effaith. Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn darparu cyfleoedd pellach ar gyfer dysgu annibynnol ac anogir dysgwyr MAT i fod yn uchelgeisiol yn eu hymchwil ar gyfer y Prosiect Estynedig. Mae dysgwyr MAT hefyd yn cymryd rhan mewn cystadlaethau megis Her Mathemateg y DU (UK Maths Challenge) a chystadlaethau ieuenctid cenedlaethol y Rotari ar gyfer awduron, cerddorion a ffotograffwyr ifanc, i ymestyn eu haddysg tu hwnt i'r cwricwlwm. Mae dysgwyr galwedigaethol talentog yn y rhan fwyaf o SAB yn cymryd rhan mewn sialensiau sgiliau meigs Cystadlaethau Sgiliau Cymru<sup>19</sup> a WorldSkills UK<sup>20</sup>, ac mewn rhai achosion yn derbyn sesiynau sgiliau ychwanegol i'w paratoi ar gyfer cystadlaethau.

*'Mae pob athro yn gweithio o fewn strategaeth Ymestyn a Herio er mwyn sicrhau bod yr addysgu yn wahaniaethol a bod yr holl ddysgwr yn cael eu hannog i gyflawni eu potensial'*

Dirprwy Bennaeth Cwricwlwm ac Ansawdd

- 4.29 Mae gan reolwyr AB feddwl uchel o'r partneriaethau y maen nhw wedi'u datblygu gyda Sefydliadau AU i ddarparu darlithoedd ar bynciau penodol, dosbarthiadau meistr a ffug gyfweiliadau ar gyfer dysgwyr MAT. Er enghrafft, mae Consortiwm AU+<sup>21</sup> Abertawe, prosiect cydweithredol rhwng Coleg Gŵyr a saith ysgol uwchradd, yn darparu sesiynau uwch gwricwlaidd, dosbarthiadau ymestynnol academiaidd, sesiynau gwybodaeth a chyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr i brifysgolion blaengar. Ond, nododd y mwyafrif o SAB nad ydyn nhw, ar hyn o bryd yn gweithredu 'model hub' MAT megis esiampl Coleg Gŵyr.

<sup>18</sup> <http://www.studentfinancewales.co.uk/fe/information-for-parents/welsh-government-learning-grant-further-education.aspx#.VbfGndJFD5p>

<sup>19</sup> Mae Cystadlaethau Sgiliau Cymru yn cynnwys tua 30 o gystadlaethau sgiliau lleol, wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru a'u rhedeg gan rwydwaith penodol o golegau, darparwyr dysgu yn y gweithle a sefydliadau dan arweiniad cyflogwyr.

<sup>20</sup> Cynhelir cystadlaethau WorldSkills UK yn rhanbarthol a chenedlaethol yn y DU yn flynyddol a'u bwriad ydy gwella safonau hyfforddiant a pherfformiad drwy hyrwyddo sgiliau byd eang eu safon a'r awydd i gystadlu'n rhyngwladol.

<sup>21</sup> Ariennir AU+ (HE+) gan Brifysgol Caergrawnt mewn un deg pedwar o ranbarthau'r DU. Mae ysgolion a Sefydliadau AB yn cydweithio mewn rhaglen flyyddyn i annog a pharatoi'r dysgwyr mwy academiaidd alluog i wneud ceisiadau cystadleuol i brifysgolion blaengar.

- 4.30 Yn Ionawr 2015, yn dilyn adroddiad i Lywodraeth Cymru<sup>22</sup> lansiodd Paul Murphy AS, Gweinidog Addysg a Sgiliau rwydwaith 'Seren', rhwydwaith o ganolfannau partneriaeth wedi'u llunio i gynorthwyo dysgwyr mwyaf disglair Cymru i gyflawni eu potensial academaidd a chael mynediad i brifysgolion blaengar. O fis Medi 2015 bydd cyfran gyntaf o 'hybiau' peilot yn cynnwys ysgolion 11-18 a SAB yr ardaloedd lleol, yn gweithio mewn partneriaeth gydag A'auLI a chonsortia rhanbarthol ynghyd â chymorth pellach gan brifysgolion a chyn fyfyrwyr. Ynghyd â rhaglen gymorth academaidd uchel ei ansawdd yn sail i ymestyn a herio dysgwyr MAT blwyddyn 12 ac 13 tu hwnt i gwricwlwm Lefel A, bydd cyfarfodydd cyson yn galluogi dysgwyr MAT i ddod at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau uwch gwricwlaidd. Dywedodd rheolwyr AB eu bod yn cynllunio datblygu canolfannau 'hyb' rhwydwaith Seren ar draws Cymru a bod hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i Sefydliadau AB ac ysgolion i gydweithio'n agosach i gynorthwyo a chefnogi dysgwyr MAT.
- 4.31 Nododd pob SAB hefyd eu bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda busnesau a chyflogwyr lleol er mwyn darparu lleoliadau gwaith penodol i gwrs, mentoriaid yn y diwydiant, modelau rôl a llysgenhadon STEM. Ymhlith y cyfleoedd eraill ar gyfer cyfoethogi mae:
- academiâu chwaraeon rhanbarthol;
  - academiâu celfyddydol a dawnys a dosbarthiadau meistr;
  - gweithgareddau entrepreneuriaidd megis yr Her Entrepreneuriaeth Byd Eang;
  - cymdeithasau sy'n cael eu rhedeg gan y dysgwyr e.e. athroniaeth a datblygiad y byd;
  - cystadlaethau dadlau e.e Senedd Ieuencid Ewrop, Model y Cenhedloedd Unedig, a 'Youth Speaks'.
- 4.32 Er bod y rhan fwyaf o weithgareddau cyfoethogi ar agor i bawb, mae disgwyl i ddysgwyr MAT i fod yn rhagweithiol i ganfod cyfleoedd ymestyn, gan gystadlu a mynychu digwyddiadau perthnasol.
- 4.33 Er i SAB nodi bod gwybodaeth am MAT mewn llenyddiaeth marchnata, dydy'r potensial i sianelau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol i gysylltu gyda dysgwyr MAT neu eu rhieni ddim wedi'i ddatblygu'n ddigonol ym mron bob coleg. Nodir mai nosweithiau rhieni ydy prif fforwm i rannu gwybodaeth gyda rhieni am faterion MAT am gynnydd a photensial unigolion. Yn gyffredinol, trafodir cyfleoedd ar gyfer symud ymlaen, caiff opsiynau ar gyfer ysgoloriaethau eu hegluro, ac anogir rhieni i gefnogi a chynorthwyo eu plant mewn gweithgareddau allgyrsiol perthnasol ac mae staff yn ymateb i unrhyw bryderon sydd gan rieni.
- 4.34 Nododd tua dwy ran o dair o Sefydliadau AB fod eu staff wedi derbyn hyfforddiant ar faterion MAT naill ai'n fewnol neu wedi'i ddarparu gan ddarparwyr allanol. Ymhlith yr agweddau cyffredin y delir gyda nhw mae

---

<sup>22</sup> Mae adroddiad Llysgennad Oxbridge ar gael ar wefan:  
<http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/oxbridge-project/news-and-events/seren-supporting-wales-brightest/?lang=en>

datblygu strategaethau dysgu sy'n gwella gwahaniaethu, cymorth ar gyfer staff addysgu Lefel A i'w helpu i baratoi ar gyfer gwneud cais i brifysgol, gosod targedau heriol, ymweld â SAB i arsylwi a rhannu arferion ac addysgu rhagorol sy'n hyrwyddo ymestyn a herio.

- 4.35 Mae pob un o'r SAB yn defnyddio elfennau o'u cyllid craidd, gan gynnwys cyllid cylchol, cyfoethogi ac ymgodol i ddarparu arian ar gyfer cynorthwyo, herio a chyfoethogi MAT. Ymhlith y ffynonellau cyllido ychwanegol mae:
- cyllid Rhwydwaith Seren Llywodraeth Cymru a grantiau Cronfa Gwella Ansawdd
  - cyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer cyllido partneriaeth Ymestyn yn Ehangach
  - Cyllid gan Sefydliadau AU i ddatblygu canolfannau ar gyfer y dysgwyr mwyaf galluog
  - grantiau STEM e.e. gan Gymdeithas Wyddonol Prydain
  - Erasmus+ a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

*Yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr, mae cyllid Cronfa Gymeithasol Ewrop yn cyfrannu at ystod o gyfleoedd cyfoethogi ar gyfer dysgwyr MAT megis:*

- *Dysgwyr MAT yn cymryd rhan mewn prosiect twristiaeth bwyd traws gwricwlaidd i godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd. Ar ôl ymchwil annibynnol, gan gynnwys logiau fideo ac ysgrifennu caneuon, gwahoddwyd y dysgwyr mwy talentog i gyflwyno eu canfyddiadau mewn cynhadledd ryngwladol ym Monaco.*
- *Dysgwyr Technoleg Cerddoriaeth a TG yn gweithio gyda Chymdeithas Ymchwil 'Bee International' a disgyblion MAT ysgol gynradd leol i greu caneuon am gyflwr y gacynen. Mae grwpiau Facebook yn cael eu creu ac mae'r caneuon llwyddiannus ar gael i'w lawrlwytho o wefannau cerddoriaeth ar-lein.*

### **Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol**

- 4.36 Mae llawer o Awdurdodau Lleol (13 allan o 17) yn nodi bod eu staff yn hyderus yn eu gallu i gynorthwyo ysgolion i gefnogi a herio dysgwyr MAT.
- 4.37 Mewn lleiafrif o achosion, mae'r Awdurdodau Lleol yn darparu rhaglenni i herio dysgwyr MAT, gan weithio'n aml â sefydliadau rhanddeilaid. Yr enghreifftiau roddwyd oedd Sgwadiâu Ysgrifennu, grwpiau Her Mathemateg<sup>23</sup>, rhaglenni celf, 'ensembles' cerdd a chystadleuthau'r Urdd. Fodd bynnag, ni fydd y mwyafrif o'r AauLI na'r consortia rhanbarthol yn darparu gwybodaeth MAT i'r rhieni gan eu bod yn ystyried hyn yn gyfrifoldeb yr ysgolion.
- 4.38 Dywedodd llawer ALI nad ydyn nhw bellach yn darparu rhaglenni penodol, gweithgaredd allgyrsiol ac ysgolion haf i herio dysgwyr MAT. Yn gynyddol, y disgwyl o ran AauLI a chonsortia rhanbarthol ydy y bydd ysgolion yn cydweithio i ddatblygu dulliau effeithiol o gefnogi a herio dysgwyr MAT. Oherwydd hyn, gwêl swyddogion AauLI fod ffurfio Rhwydwaith Seren yn ddatblygiad positif.

<sup>23</sup> Mae'r 'UK Mathematics Trust (UKMT)' yn trefnu heriau a gweithgaredd mathemateg cenedlaethol ar gyfer unigolion a thimau o ddisgyblion 11-18 oed. <http://www.ukmt.org.uk/>

- 4.39 Mae bron pob ALL a chonsortiw rhanbarthol yn annog ysgolion i gael gafael ar ddeunyddiau ac adnoddau cyfarwyddyd NACE Cymru ar-lein. Hefyd nododd swyddogion bod Gwobr Her NACE yn darparu strwythur gwerthfawr i ysgolion ddatblygu eu darpariaeth MAT. Ond nodwyd bod cost proses Gwobr Her NACE a'r baich o gasglu tystiolaeth, yn enwedig i ysgolion cynradd bach, yn rhesymau posibl pam nad ydy ysgolion yn ceisio cydnabyddiaeth am eu gwaith o ddatblygu darpariaeth MAT.
- 4.40 Mae AauLL a chonsortia rhanbarthol yn cadarnhau mai cyllideb graidd yr ysgol sydd, fel arfer, yn ariannu darpariaeth MAT mewn ysgolion a'i ategu gan gyllid Grant Effeithiolrwydd Ysgol a Grant Amddifadedd Disgyblion. Fodd bynnag, doedden nhw ddim yn gallu dweud i ba raddau y defnyddiwyd y cyfryw arian i gynorthwyo dysgwyr MAT.

### **Partion eraill â diddordeb**

- 4.41 Nododd llawer o sefydliadau rhanddeiliaid eu bod yn darparu cyfleoedd cyfoethogi cwricwlaidd ac allgwricwlaidd. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng darparu'r cyfleoedd cyfoethogi ar gyfer yr holl ddysgwyr ochr yn ochr â chyfleoedd cynnydd mwy arbenigol ar gyfer y rhai a nodwyd yn ddysgwyr mwy galluog a thalentog. Fel arfer, cynigir rhaglenni i bob dysgwr a dydyn nhw ddim yn targedu dysgwyr MAT yn benodol. Mae enghreifftiau o weithgareddau perthnasol i'r cwricwlwm yn cynnwys dyddiau astudio Mathemateg Pellach, sesiynau adolygu ac ysgolion haf a gweithdai triphlyg ar lythrennedd ar gyfer yr ieithyddion mwy galluog.
- 4.42 Mae sefydliadau rhanddeiliaid celfyddydol yn darparu cyfleoedd cyfoethogi allgyrsiol. Er enghraifft, yn y gorffennol, darparwyd cymorth a her i gerddorion talentog gan Wasanaethau Cymorth Cerddoriaeth yr awdurdod lleol yn cynnig llwybrau cynnydd i ddysgwyr ar y cyd ag ysgolion. Fel arfer, mae cerddorion MAT yn symud ymlaen drwy strwythur pyramid, sef cerddorfeydd ysgol a sirol ac yna ensembles rhanbarthol cyn perfformio'n genedlaethol. Darperir sialens ychwanegol ar gyfer cerddorion talentog drwy ysgolion haf preswyl, cyrsiau datblygu cenedlaethol a hyfforddiant un-i-un gan, er enghraifft, y 'Junior Music Conservatoire', Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Yn yr un modd mae dawnswyr modern a bale talentog yn mynychu dosbarthiadau, gweithdai ac ysgolion haf, sy'n galluogi i ddawnsywyr mwy talentog gael eu canfod a'u clyweld i gymryd rhan mewn rhaglenni a dargedwyd.
- 4.43 Nododd rhanddeiliaid nad ydy pynciau creadigol o angenrheid yn flaenoriaeth mewn llawer o ysgolion oherwydd y ffocws ar lythrennedd a rhifedd, ac oherwydd nad ydyn nhw'n nodwedd o ddata perfformiad craidd ysgolion, does dim proffil ganddyn nhw. O ganlyniad, mae rhanddeiliaid yn teimlo ei bod yn hanfodol i ysgolion weithio gyda nhw i feithrin plant a phobl ifanc sy'n rhagori yn y celfyddydau gweledol. Fel arfer, mae rhanddeiliaid y Celfyddydau'n gweithio'n agos gyda swyddogion yr ALL, yn enwedig o'r Gwasanaethau Cymorth i Gerddoriaeth a Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau. Mae ganddyn nhw hefyd



gysylltiadau actif gyda grwpiau ieuencid a grwpiau cymunedol i sicrhau bod dysgwyr talentog yn ymwybodol o lwybrau cynnydd a chyfleoedd i berfformio.

- 4.44 Mae'r rhan fwyaf o ran-ddeiliaid maes chwaraeon a holwyd yn darparu rhaglenni i herio'r dysgwyr mwyaf talentog fel rhan o lwybrau datblygu talent a'r llwybrau hynny wedi'u strwythuro'n dda. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd sesiynau blasu yn yr ysgol yn gwricwlaidd ac allgyrsiol, cynlluniau gwobrwyo gwahaniaethol, cystadlaethau ar lefel ysgol, rhanbarthol a chenedlaethol, cyfleoedd cyfoethogi allgyrsiol; wedi'u targedu a llwybrau elit.
- 4.45 Ariennir rhaglenni cyfoethogi ar gyfer dysgwyr MAT a gynigir gan sefydliadau rhanddeiliaid mewn amrediad o ddulliau gan gynnwys:
- arian Llywodraeth Cymru sy'n cael ei ategu mewn rhai achosion gan gyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop
  - ariannu cyfatebol yr ALI a/neu gyllido mewn nwyddau drwy ddarparu lleoliadau, cydlynu prosiect a chymorth gweinyddol
  - cyllid Corff Llywodraethol Cenedlaethol ynghyd ag arian loteri mewn rhai achosion
  - cyllid allanol megis grantiau Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, mewn rhai achosion gydag elfen o adennill costau drwy godi tâl ar bob dysgwr neu ar bob ysgol i gymryd rhan.
  - gweithgareddau codi arian e.e. mae rhai gwasanaethau cerddoriaeth yr AauLI yn anfon eu cerddorion mwyaf talentog i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru am wersi ychwanegol a chodi arian i noddi'r ddarpariaeth.
  - dysgwyr unigol MAT neu eu rhieni yn talu i gymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau cyfoethogi arbenigol. Yn y rhan fwyaf o achosion lle codir tâl, mae cymorthdaliadau a bwrsariau ar sail prawf modd ar gael i ddysgwyr MAT o deuluoedd isel eu hincwm.

*I gyflenwi cyfleoedd ym maes uwch hyfforddiant a chyfranogiad ar gyfer dawnswyr, dyfarnwyd cyllid grant i Ballet Cymru a Rubicon Dance, mudiad celfyddydol yn y gymuned, gan Sefydliad Paul Hamlyn. I ganfod talent, daeth 1200 o ddisgyblion o ysgolion cynradd ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Caerdydd a Chasnewydd i glyweliad a dyfarnwyd 30 o ysgoloriaethau i'r bobl ifanc hynny gyda photensial nodedig ym maes dawns. Roedd yr ysgoloriaethau yn galluogi'r bobl ifanc hyn i gael gwersi dawns na fyddai ar gael iddyn nhw yn flaenorol. Rhoddwyd esgidiau a gwisgoedd dawns i rai disgyblion er mwyn sicrhau na fyddai problemau fel hyn yn eu rhwystro rhag cymryd rhan.*

- 4.46 Nododd y rhan fwyaf o sefydliadau rhanddeiliaid sy'n darparu cyfleoedd cyfoethogi a chynnydd ar gyfer dysgwyr MAT nad ydyn nhw'n cyfathrebu'n uniongyrchol gyda rhieni. Mewn ychydig o achosion maen nhw'n cyhoeddi llenyddiaeth sy'n amlinellu'r ddarpariaeth sydd ar gael, fodd bynnag, dydy hyn ddim fel arfer yn wybodaeth sy'n benodol i MAT, mae gwybodaeth hefyd ar gael drwy wefannau rhanddeiliaid er nad yw'r wybodaeth wedi'i hanelu at rieni yn y rhan fwyaf o achosion.

## 5. Tracio a monitro

Mae'r adran hon yn nodi'r camau a weithredwyd gan:

- ysgolion, Sefydliadau AB ac AauLL i olrhain cynnydd dysgwyr MAT
- ysgolion a Sefydliadau AB i fonitro effeithiolrwydd darpariaeth MAT

### Ysgolion

- 5.1 Nododd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod yn defnyddio systemau electronig sy'n tracio ysgol gyfan, naill ai rhai masnachol neu rai wedi datblygu'n fewnol i goladu a dadansoddi data perfformiad disgyblion a gwybodaeth arall am ddysgwyr MAT. Dywedodd ysgolion eu bod yn defnyddio eu ffynonellau data eu hunain i dracio a monitro cynnydd dysgwyr MAT, a dim ond lleiafrif a nododd eu bod yn derbyn eu data asesu dysgwyr MAT gan eu hawdurdod lleol neu'r consortia rhanbarthol. Prin ydy'r dystiolaeth a gafwyd i awgrymu bod ysgolion yn tracio cynnydd talent dysgwyr yn systematig.
- 5.2 Mae dadansoddiad rheolaidd o'r data asesu ffurfiannol a chrynodol, wedi ei ategu â chanlyniadau'r dysgwyr mewn profion Cenedlaethol, yn caniatáu i ysgolion dracio perfformiad dysgwyr MAT yn erbyn targedau wedi eu rhagfynegi, yn rhai blynyddol neu ddiwedd cyfnodau allweddol. Nododd llawer o ysgolion y defnyddir cyfleoedd i adolygu a safoni gwaith y dysgwyr, drwy archwilio eu llyfrau, ynghyd â chyfleoedd i arsylwi arferion yn y dosbarth, er mwyn monitro cynnydd y dysgwyr MAT. Adroddir bod dysgwyr MAT yn tracio eu cynnydd eu hunain yn y mwyaf o ysgolion.
- 5.3 Cesglir tystiolaeth am effeithiolrwydd darpariaeth MAT gan systemau monitro ysgolion, yn y rhan fwyaf o achosion gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r Cydlynnydd MAT. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r technegau o arsylwi arferion yn y dosbarth a monitro cynllunio athrawon er mwyn sicrhau bod cymorth a her MAT yn elfen arferol o addysgu a dysgu o ddydd i ddydd. Caiff ansawdd ac effaith hefyd eu monitro drwy ddefnyddio arolygon rhwng athrawon a'r Cydlynnydd MAT.
- 5.4 Er nad oes dyletswydd statudol i gael llywodraethwr a enwir gyda chyfrifoldeb dros ddysgwyr mwy galluog a thalentog, mae Llywodraethwyr Cymru yn ystyried bod hyn yn arfer effeithiol ac mewn rhai ysgolion dynodir llywodraethwr i weithio gyda'r Cydlynnydd MAT. Nododd y rhan fwyaf o ysgolion fod cymorth a her MAT hefyd yn cael eu monitro gan y corff llywodraethol gydag adroddiadau cyson ar gynnydd dysgwyr yn erbyn targedau diwedd cyfnod allweddol.
- 5.5 Nodir bod safbwynt allanol yn cael ei gynnig gan gynghorwyr herio'r consortia rhanbarthol mewn tua traean o'r ysgolion. Ychydig iawn o ysgolion a nododd fod swyddogion ALI yn chwarae rôl yn monitro darpariaeth MAT. Fodd bynnag, mae'r ysgolion hynny sy'n gweithio tuag at Wobr Her NACE Cymru yn datgan eu bod wedi derbyn adborth gwerthfawr fel rhan o'r broses achredu.

..

*Yn Ysgol Bro Morgannwg, ysgol gyfun 11-18 oed sydd wedi ennill Gwobr Her NACE Cymru, mae targedu dysgwyr MAT a dysgwyr eithriadol o alluog ymhob cyfnod allweddol yn elfen allweddol. Mae darpariaeth MAT yn cael ei fapio ymhob cynllun dysgu adrannau, gan nodi'n glir sut mae gwahaniaethu yn ystyried anghenion dysgwyr MAT. Mae cydlynnydd MAT yn sicrhau hyfforddiant cyson ar ddiweddarau yn digwydd ar gyfer yr holl staff gyda chyfleoedd i arddangos arferion da. Darperir hyfforddiant ychwanegol ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwysu ac athrawon newydd i'r ysgol.*

*Er mwyn sicrhau cysondeb, mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn samplo gwaith dysgwyr ac yn monitro gwaith adrannau yn fanwl ac yn adrodd yn ôl ar ddarpariaeth MAT a hynny'n help i ddatblygu hyder staff. Mae'r corff llywodraethol hefyd yn monitro darpariaeth a pherfformiad yn fanwl. Hefyd, defnyddir system dracio disgyblion unigol ar draws yr ysgol a chaiff cynnydd dysgwyr ei fonitro dair gwaith yn ystod y flwyddyn, gyda'r canlyniad bod gan adrannau wybodaeth dda am ddisgyblion unigol. Mae cynnydd disgyblion MAT hefyd yn bwydo i mewn i adroddiad hunan-asesu'r ysgol. Caiff disgyblion eithriadol o alluog eu mentora'n bersonol gan y Cydlynnydd MAT sy'n monitro cynnydd y disgyblion mwyaf galluog a thalentog bob hanner tymor. Mae'r ysgol yn datgan bod y strategaethau hyn wedi cyfrannu at gynnydd ym mherfformiad lefel 7+ gan ddisgyblion MAT ar Gyfnod Allweddol 3. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni lefel Perfformiad Eithriadol ar Gyfnod Allweddol 3.*

- 5.6 Mae ysgolion arbennig yn defnyddio systemau mewnol neu fasnachol i dracio cynnydd dysgwyr gan gynnwys dysgwyr MAT. Mae safoni gwaith dysgwyr yn yr ysgol a hefyd gydag ysgolion arbennig eraill yn help i sicrhau mwy o gysondeb. Mae athrawon yn ymwybodol o wahanol anghenion a galluoedd disgyblion ac mae hyn yn eu cynorthwyo i ganfod llwybrau cynnydd priodol.

*'Mae cydlynwyr darpariaeth llythrennedd a mathemateg yn mapio'r cymorth y mae'r Cynorthwywyr Dysgu llythrennedd a rhifedd yn ei gynnig, er mwyn sefydlu effaith eu mewnbwn.'*  
Dirprwy Bennaeth Ysgol Arbennig

- 5.7 Nododd Unedau Cyfeirio Disgyblion fod cynnydd dysgwyr MAT yn cael ei dracio drwy fonitro a ydy'r targedau dysgu unigol wedi cael eu cyflawni, yn bennaf drwy adolygu'r CAU yn gyson a'r arolwg blynyddol. Mae'r ffaith mai pethau dros dro ydy'r carfannau o ran eu natur yn gwneud tracio cynnydd dysgwyr yn sialens, a'r mwyafrif o Unedau Cyfeirio yn cydnabod bod tracio cynnydd dysgwyr yn agwedd i'w datblygu ymhellach.

### **Sefydliadau Addysg Bellach**

- 5.8 Mae'r prosesau ar gyfer tracio cynnydd dysgwyr MAT yn amrywio ar draws Sefydliadau AB. Mae nifer yn defnyddio pyrth ar y we/systemau tracio electronig i osod targedau a chofnodi data cyrhaeddiad dysgwyr. Yn aml, mae systemau o'r fath yn cynnwys elfen o hunan-asesu ac yn galluogi i gynnydd dysgwyr MAT unigol gael ei fonitro mewn amser real yn erbyn eu targedau.
- 5.9 Fel arfer, cyfrifoldeb y Cydlynnydd MAT neu uwch reolwyr ydy monitro a thracio cynnydd dysgwyr MAT academaidd tra mai tiwtoriaod cwrs yn bennaf sy'n

tracio cynnydd dysgwyr MAT galwedigaethol. Ymhlith ffynonellau data yn ymwneud â MAT mae:

- canlyniadau arholiadau allanol; er enghraifft canran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau A\*/A fesul pwnc yn TGAU a Lefel A ac ennill rhagoriaeth mewn cymwysterau galwedigaethol
- canran y dysgwyr sy'n gwneud cynnydd positif; pa mor bell mae pob dysgwr wedi symud o'u gwaelodlin mynediad
- y gyfran sy'n cystadlu yn WorldSkills UK a'r nifer o enillwyr cystadlaethau sgiliau
- mynychu gweithgareddau cyfoethogi

5.10 Mae riportio ar gynnydd dysgwyr MAT yn agwedd annatod o brosesau sicrhau ansawdd. Fel arfer, caiff y data ar ddysgwyr sy'n dangos cynnydd yn erbyn targedau unigol, yn cynnwys targedau ar gyfer dysgwyr MAT, eu bwydo i mewn i adroddiadau rheolwyr, ei ddadansoddi gan Fyrddau Ansawdd a'i anfon at dimoedd uwch arweinyddiaeth/timoedd gweithredol i asesu pa mor effeithiol mae'r ddarpariaeth.

### **Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol**

5.11 Cesglir data perfformiad disgyblion MAT gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol. Hefyd defnyddir Setiau Data Craidd Cymru Gyfan fel offer dadansoddi cyd-destunol. Nododd ychydig o AauLI eu bod wedi datblygu systemau soffistigedig ar gyfer tracio data sy'n caniatáu i gynnydd dysgwr unigol gael ei dracio. Dadansoddir y data ac mae hynny'n sail i'r cynllunio strategol.

5.12 Cyfrifoldeb consortiwm rhanbarthol ydy casglu a dadansoddi data cyrhaeddiad disgyblion MAT a'r consortiwm yn ei dro yn adrodd yn ôl i'r ALI ac ysgolion ar gynnydd cymharol carfannau o ddysgwyr. Nodwyd bod gwahaniaethau yn lefel y datblygiad a fu ar systemau tracio a ddefnyddir gan gonsortia rhanbarthol i gasglu a dadansoddi data. Ond mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol yn nodi bod data perfformiad disgyblion yn y pynciau craidd wedi'i gasglu, ei ddadansoddi a'i ddefnyddio ar gyfer cynllunio, canfod arferion effeithiol a thargedu ymyriadau lle bo angen. Nodwyd hefyd bod data ar berfformiad disgyblion ysgol yn cael ei ddefnyddio gan y cynghorwyr herio yn sail i drafodaethau â ffocws gydag ysgolion unigol am effeithiolrwydd eu cymorth a'u her i ddysgwyr MAT.

*'Mae data teulu o ysgolion yn dangos bod gwahaniaeth rhwng disgwyliadau'r gwahanol gonsortia a'r awdurdau lleol ac felly ni all pawb ddarparu ar gyfer dysgwyr MAT yn yr un modd.'*

Pennaeth Ysgol Gynradd

## 6. Casgliadau

- 6.1 Mae dysgwyr yng Nghymru yn astudio mewn nifer o wahanol leoliadau, pob un â'i flaenoriaeth ei hun, ei drefniadau ariannu, staffio, adnoddau a chymorth ei hun. Mae'r cyfryw amrywiaeth yn anochel yn arwain at ystod o strategaethau i ganfod, cynorthwyo a herio'r dysgwyr mwy galluog a thalentog.
- 6.2 Dangosodd ysgolion<sup>24</sup> a Sefydliadau Addysg Bellach a gymerodd ran yn yr arolwg ymrwymiad cadarn i ddarparu cymorth priodol a her briodol ar gyfer eu disgyblion mwy galluog a thalentog. Yn y lleoliadau lle roedd uwch arweinwyr wedi sefydlu bod darpariaeth MAT yn flaenoriaeth, mae tuedd i'r arfer fod wedi'i ymgorffori. Er hyn, gall blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, megis codi safonau llythrennedd a rhifedd a'r ffocws ar atebolrwydd, gael y flaenoriaeth. O ganlyniad, mae cryn wahaniaethau yn y ddarpariaeth afr gyfer dysgwyr MAT ar draws ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach.

### Diffiniad a chyfarwyddyd

- 6.3 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ddiffiniadau MAT penodol i ysgol, diffiniadau sy'n cyfeirio at alluoedd academaidd dysgwyr a'u talentau ehangach. Does gan y rhan fwyaf o Sefydliadau AB fodd bynnag, ddim diffiniad cytûn traws-coleg o MAT. Dylai pob lleoliad geisio datblygu dull o fynd ati sy'n adnabod talentau a galluoedd unigolyn yng nghyd-destun eu lleoliad
- 6.4 Mae consortia rhanbarthol, AauLI ac ysgolion yn ymwybodol o ddogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru – *Cyflawni'r Her, Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog* ac mae'r mwyafrif wedi ei defnyddio'n llwyddiannus i ddatblygu darpariaeth.
- 6.5 Pan gafodd ei lansio roedd *Cyflawni'r Her* yn adlewyrchu'r arferion ond mae tystiolaeth yr arolwg yn dangos bod angen ei ddiweddarau i:
- osod y safonau a ddisgwyllir ar gyfer datblygu darpariaeth ymhob ysgol a Sefydliad Addysg Bellach;
  - adlewyrchu blaenoriaethau polisi cyfredol, dulliau o fynd at i addysgu a dysgu, trefniadau profion cenedlaethol a gofynion ar gyfer riportio cynnydd dysgwyr;
  - egluro rolau cyflenwol Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol o ran cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer MAT; a
  - darparu ffocws ar effaith y ddarpariaeth ar ganlyniadau i ddysgwyr MAT.

### Cynllunio Strategol

- 6.6 Nododd y rhan fwyaf o ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach fod MAT yn nodwedd yng nghynllun datblygu cyfredol yr ysgol. Mae gwella perfformiad

---

<sup>24</sup> Mae Ysgolion' yn cyfeirio at bob ysgol brif ffrwd, ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion oni chyfeirir yn benodol atyn nhw.

academaidd a chynyddu'r gyfran o ddysgwyr MAT sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel disgwylidig yn flaenoriaethau cyffredin. Fodd bynnag, prin iawn oedd yr ysgolion a'r SAB hynny sy'n cynllunio'n strategol i ddatblygu talent ac yn anaml mae'n cynnwys dysgwyr MAT a'u rhieni wrth gynllunio gwelliannau i'r ddarpariaeth. Rhaid i leoliadau fod yn fwy rhagweithiol wrth ystyried barn dysgwyr MAT a'u rhieni.

- 6.7 Mae MAT yn nodwedd, naill ai ar wahân neu fel elfen o flaenoriaeth ehangach, yng nghynllunio strategol y rhan fwyaf o AauLI a dau gonsortia rhanbarthol. Mae hyrwyddo addysgu a dysgu uchel eu hansawdd a gwella perfformiad academaidd fel bod dysgywr MAT yn cyflawni'n uwch na'u lefel disgwylidig yn aml yn flaenoriaethau yn y cynlluniau hyn. Mae cynllunio strategol i wella ansawdd darpariaeth MAT yn amrywio ar draws AauLI a chonsortia rhanbarthol; er enghraifft lleiafrif sy'n meddu ar y strategaeth, polisi neu gynllun gweithredu diweddaraf ar gyfer MAT. Mae angen dull sydd wedi'i dargedu fwy o fynd ati i gynllunio'n strategol ar gonsortia rhanbarthol a'r AauLI er mwyn cynorthwyo i wella darpariaeth ar gyfer MAT ymhob ysgol.

## Canfod

- 6.8 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion strategaeth ysgol gyfan ar gyfer canfod dysgwyr MAT gan wneud defnydd o ystod o ddata perfformiad, arsylwi athrawon a chyfeirio gan rieni ac asiantaethau eraill. Fodd bynnag, mae tuedd i'r ffocws, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, i fod ar allu academaidd yn hytrach nag ar ganfod a meithrin talent.

Hefyd yn y rhan fwyaf o Sefydliadau AB mae'r meini prawf a ddefnyddir i ganfod dysgwyr MAT yn armywio'n sylweddol ac angen eu datblygu ymhellach er mwyn canfod galluoedd a thalentau dysgwyr galwedigaethol MAT yn well. Mae angen i bob lleoliad wneud y broses systematig o ganfod talentau dysgwyr yn elfen ganolog o'u darpariaeth ar gyfer MAT.

- 6.9 Yn aml, mae'r dysgwyr mwy gallog a thalentog yn fwy hunan-ymwybodol ac yn sylweddoli beth ydy eu galluoedd eu hunain. Fodd bynnag, dim ond mewn lleiafrif o leoliadau mae dysgwyr MAT yn cymryd rhan yn y broses o ganfod. Mae rhannu meini prawf canfod cytûn gyda dysgwyr a'u cynnwys yn y broses canfod yn agwedd ar gyfer datblygiad ar draws pob sector.

## Cymorth a Her

- 6.10 Yn dilyn y canfod, mae'r rhan fwyaf o ysgolion a Sefydliadau AB yn cynllunio cyfuniad o brofiadau dysgu o fewn y dosbarth a thu hwnt, i gwrdd ag anghenion dysgwyr MAT. Mae gan bob ysgol uwch arweinydd penodol neu gydlynnydd sy'n rheoli'r ddarpariaeth ar gyfer MAT. Darperir ystod eang o gymorth academaidd, personol ac ariannol gyda chymorth wedi'i dargedu yn cael ei roi i'r mwyaf galluog pan fyddan nhw'n gwneud cais am le mewn prifysgolion blaengar.
- 6.11 Er hyn, mae'r defnydd o fodelau rôl i godi dyheadau ac ymgysylltu â sianelau'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysu dysgwyr yn agweddau ar gymorth heb eu datblygu'n llawn ar draws pob sector. Mae rhannu gwybodaeth am MAT megis

cyfleoedd cyfoethogi gyda dysgwyr a rhieni hefyd yn agwedd o gymorth sydd angen eu datblygu ymhellach yn y rhan fwyaf o leoliadau.

- 6.12 Yn gyffredinol, darperir her briodol ar gyfer dysgwyr MAT. Mae ysgolion a Sefydliadau AB yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu i ymestyn hyd a lled y profiad dysgu ar gyfer dysgwyr MAT. Fodd bynnag, dim ond tua hanner yr ysgolion sy'n darparu gweithgareddau penodol i herio dysgwyr eithriadol o dalentog. Dylai lleoliadau ddatblygu eu darpariaeth er mwyn sicrhau bod dysgwyr o'r fath yn cael rhaglenni sy'n briodol heriol yn seiliedig ar dalentau a galluoedd pob unigolyn.

### **Cyllido**

- 6.13 Mae ysgolion a Sefydliadau AB yn defnyddio ariannu craidd yn bennaf i ddatblygu darpariaeth ar gyfer MAT a'i ategu gydag arian grant i ariannu gweithgareddau ymestyn a chyfoethogi. Fodd bynnag, dim ond ychydig o leoliadau sy'n monitro pa mor effeithiol mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i gwrdd ag anghenion dysgwyr MAT. Byddai datblygu dealltwriaeth clir o'r defnydd priodol o arian ar gyfer darpariaeth MAT yn cynorthwyo i fonitro'r cymorth a'r her sydd ar gael i ddysgwyr MAT.

### **Partneriaethau**

- 6.14 Mae partneriaethau gyda sefydliadau rhanddeiliaid, y mae llawer ohonyn nhw'n darparu cyfleoedd cyfoethogi cwricwlaidd ac allgyrsiol ar gyfer dysgwyr MAT, yn nodwedd ganolog o'r ddarpariaeth mewn llawer o ysgolion a Sefydliadau AB. Fodd bynnag, cyfyng ydy'r cymorth y mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ei dderbyn gan eu hawdurdod neu eu consortia rhanbarthol i ddatblygu darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr MAT ac i rannu arferion. Mae'r rhan fwyaf o Sefydliadau AB hefyd yn gweithio'n annibynnol i ddatblygu eu darpariaeth MAT.
- 6.15 Mae angen dulliau mwy cyson o fynd ati i ddarparu cyngor a chymorth o ansawdd ar gyfer ysgolion a Sefydliadau AB ochr yn ochr â dull mwy cydlynol o fynd ati i rannu arferion ar draws pob sector.

### **Tracio Cynnydd a'r Pontio**

- 6.16 Mae Ysgolion a Sefydliadau AB wedi gwella eu defnydd a'u dadansoddiad o ddata. Defnyddir systemau electronig yn effeithiol yn y rhan fwyaf o ysgolion ac mae Sefydliadau AB yn coladu gwybodaeth am gynnydd pob dysgwr a'u tracio a hynny'n cynnwys y rhai a nodwyd yn rhai mwy galluog a thalentog. Mae Ysgolion a Sefydliadau AB yn tracio perfformiad academaidd dysgwyr MAT yn bennaf ac yn ffocysu llai ar fonitro datblygiad talent.
- 6.17 Er mwyn darparu data ar berfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai mwy galluog a thalentog, mae'r consortia rhanbarthol a'r AauLI wedi datblygu amrywiaeth o brosesau ar gyfer tracio cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, amrywiol ydy'r defnydd effeithiol o ddata fel sail i ymyriadau ar lefel ysgol i gynorthwyo a herio dysgwyr MAT. Dylai consortia rhanbarthol ac AauLI

ystyried sut i wneud gwell defnydd o ddata cyflawniad dysgwyr MAT er mwyn darparu dull mwy cyson o herio ysgolion ar effeithiolrwydd eu darpariaeth ar gyfer MAT a'i effaith ar ddatblygu potensial y dysgwyr MAT.

- 6.18 Mae'r trefniadau ar gyfer dysgwyr MAT o fewn lleoliadau a rhwng lleoliadau hefyd yn agwedd i'w datblygu ymhellach. Ar hyn o bryd, mae hyn yn amrywio ar draws pob sector. Mae angen i leoliadau rannu gwybodaeth yn well am gyflawniadau blaenorol a thalentau penodol dysgwyr MAT yn unigol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal eu cynnydd ac yn gallu parhau i gael eu cynorthwyo i gyflawni eu potensial. Er mwyn sicrhau mwy o gysondeb, dylid datblygu protocolau i gyfnewid gwybodaeth am ddysgwyr MAT yn effeithiol.



## Atodiad A: Dulliau cymharol o ddelio â'r dysgwyr MAT ar draws y DU

Yn **Lloegr**, lle defnyddir y term 'dawnus a thalentog', y diffiniad a roddir ydy: '*Plant a phobl ifanc gydag un neu fwy o alluoedd wedi datblygu'n sylweddol uwch na'u grŵp blwyddyn neu gyda'r potensial i ddatblygu'r galluoedd hyn.*'

Yn 1999, lansiodd llywodraeth y DU raglen ar gyfer dysgwyr 'dawnus a thalentog' yn Lloegr. Bwriad y polisi oedd codi cyflawniad addysgu y dysgwyr mwy galluog mewn ysgolion uwchradd ardaloedd trefol difreintiedig yn gymdeithasol ond wedyn cafodd ei ymestyn i bob grŵp oed ac ysgol yn Lloegr. O 2006 roedd gofyn i ysgolion cynradd ac uwchradd gofnodi canran o'u plant dawnus a thalentog yn y Cyfrifiad Ysgol blynyddol; y dysgwyr hynny a nodwyd gan yr ysgol eu bod yn meddu ar y gallu neu'r potensial i fod yn y 5% i'r 10%+ uchaf o boblogaeth yr ysgol unigol.

Ym Mawrth 2007, lansiwyd Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Addysg y rhai Dawnus a Thalentog (wedi'i ailfrandio yn ddiweddarach fel rhaglen y rhai Ifanc, Dawnus a Thalentog) ac ym mis Medi 2007, sefydlwyd Academi Dysgwyr Ifanc, Dawnus a Thalentog ar gyfer dysgwyr rhwng 4 ac 19 oed fel adnodd ar-lein ar gyfer dysgwyr, athrawon a darparwyr. Ym mis Chwefror 2009 lansiwyd Cofrestr Cenedlaethol y Dawnus a'r Talentog. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2009 cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn symud oddi wrth raglen ganolog ar gyfer y dawnus a'r talentog i weithgareddau mwy lleol. Terfynwyd y Gofrestr Genedlaethol ac erbyn Mawrth 2010 daeth y contract ar gyfer Academi'r Ifanc, Dawnus a'r Talentog i ben. I lenwi'r bwch, adnewyddwyd ffocws y Strategaethau Cenedlaethol<sup>25</sup> ar y ddarpariaeth ar gyfer y Dawnus a'r Talentog. Fodd bynnag, daeth terfyn ar y cyllid ar gyfer Strategaethau Cenedlaethol. Erbyn hyn mae'r cyllid ar gyfer y ddarpariaeth ar gyfer y Dawnus a'r Talentog yn Lloegr yn cael ei ail-gyfeirio drwy ffrwd cyllid Grant Penodol i Ysgolion.

Er i ddiddordeb gwleidyddol gael ei ddangos yn y dawnus a'r talentog a buddsoddi arian sylweddol yn y ddarpariaeth yn Lloegr dros gyfnod estynedig, mae pryderon yn dal i fodoli am ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr MAT. Cafodd adroddiad diweddar Ofsted<sup>26</sup> fod y rhan fwyaf o ysgolion anetholiadol cynradd ac uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn Lloegr wedi bod yn araf yn gweithredu ar yr argymhellion ar gyfer gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y dawnus a'r talentog. gan ddatgan:

Yng **Ngogledd Iwerddon** mae'r Cyngor Cwricwlwn, Arholiadau ac Asesu (CCEA) yn defnyddio'r term 'dawnus a thalentog' i ddisgrifio dysgwyr sy'n cyflawni lefel, neu gyda'r potensial i gyflawni lefel, sy'n sylweddol uwch na gweddill grŵp eu cymheiriaid yn yr un ysgol. Cyfeirir at y dysgwyr hynny sy'n dangos neu gyda'r potensial i ddangos lefel uchel iawn o allu o'i cymharu â'u cymheiriaid ar daws poblogaeth yr ysgol fel rhai Eithriadol o Alluog. Darperir canllawiau anstatudol at gyfer athrawon i gynorthwyo

<sup>25</sup> Bwriad Strategaethau Cenedlaethol yr Adran Addysg yn Lloegr oedd: '*Codi safonau cyflawniad a chyfraddau dilyniant ar gyfer plant a phobl ifanc ymhob cyfnod a lleoliad addysgol drwy ddysgu wedi'i bersonoli gyda chymorth addysgu o ansawdd uchel wedi'i gynllunio'n dda sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigolion gan ffocysu'n benodol ar bynciau craidd a'r blynyddoedd cynnar.*'

<sup>26</sup> Ofsted; '*The most able students; an update on progress since June 2013*' (Mawrth 2015)

addysgu a dysgu dysgwyr dawnus a thalentog; mae deunyddiau cymorth ar gael ar-lein a chyfarwyddyd byr ar gael ar gyfer rhieni hefyd.

Yn yr **Alban**, mae addysg disgyblion galluog yn rhan o'i deddfwriaeth addysg arbennig. Mae canllawiau anstatudol yn gyson â nodau ac amcanion y Cwricwlwm Rhagoriaeth ar gael gan Rwydwaith yr Alban ar gyfer Disgyblion Galluog. Mae'r term 'galluog iawn' wedi'i fabwysiadu i gyfeirio at ddysgwyr sy'n gweithio ar lefel uwch na'u cymheiriaid o'r un oed ac at ddisgyblion sydd â'r potensial i weithio ar lefel uwch na'u cymheiriaid o'r un oed. Mae'r Alban hefyd wedi sefydlu chwe chanolfan ragoriaeth wedi'u lleoli mewn ysgolion cyfun sy'n galluogi i ddisgyblion talentog fanteisio i'r eithaf ar eu potensial a datblygu eu potensial i'r eithaf tra'n derbyn gwersi arbenigol ychwanegol mewn cerddoriaeth, dawnus neu chwaraeon.

## Atodiad B: Rhoi argymhellion Estyn ar waith

Ers mis Medi 2010 mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn mynnu bod ysgolion yn rheolaidd yn gwerthuso ansawdd eu darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog. Y disgwyliad ydy y bydd ysgolion yn sicrhau bod:

- amrediad ac ansawdd y dulliau addysgu a argymhellir yn llwyddo i ddarparu gwaith ymdrechgar i gwrdd ag anghenion yr holl ddisgyblion;
- y gwaith yn ddigon heriol i ddysgwyr MAT;
- deunyddiau a dulliau cyflenwi wedi eu gwahaniaethu'n briodol.

Ym Mehefin 2011, adroddodd Estyn ar y gefnogaeth oedd yn cael ei darparu i ddysgwyr MAT mewn ysgolion cynradd<sup>27</sup> ac yna, ym Mehefin 2012, adroddwyd am y ddarpariaeth MAT mewn ysgolion uwchradd<sup>28</sup>. Yn y ddau achos, darparwyd argymhellion o welliannau ar gyfer yr ysgolion a'r awdurdodau lleol.

Mae'r testun isod yn rhoi asesiad byr, seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg, o'r hyn mae ysgolion ac Awdurdodau Lleol wedi ei weithredu o argymhellion Estyn oedd wedi eu hanelu i roi cefnogaeth i ddysgwyr MAT.

Awgryma tystiolaeth yr arolwg mai cyfyngedig fu'r newidiadau positif mewn ymarfer o'u cymharu â llawer o'r argymhellion, gan awgrymu bod y ddarpariaeth MAT yn parhau yn faes sydd i'w ddatblygu ymhellach mewn llawer o ysgolion. Hefyd, mae darpariaeth MAT yn argymhelliad cymharol gyffredin mewn adroddiadau arolwg, hyd yn oed mewn rhai ysgolion sy'n perfformio'n uchel, gan ddangos nad ydy argymhellion Estyn wedi eu gweithredu'n llawn.

### Argymhellion Cynradd

#### **A1 darparu profiadau dysgu mwy heriol ac unigol i helpu disgyblion mwy abl a dawnus i gyflawni'r safonau uchaf.**

Dywedodd y mwyafrif o ysgolion cynradd eu bod wedi gosod targedau i ymgymraedd atyn nhw, gyda'r disgwyliad byddai dysgwyr MAT yn cyflawni o leiaf un canlyniad Cyfnod Sylfaen neu lefel Cwricwlwm Cenedlaethol uwch na'r disgwyliad ar gyfer diwedd cyfnod/cyfnod allweddol mewn asesiadau crynodol. I alluogi dysgwyr MAT gyflawni eu potensial, dywedodd yr ysgolion iddyn nhw weithredu i ymestyn lled a dyfnder y profiadau dysgu ar gyfer dysgwyr MAT. Adroddodd y mwyafrif o ysgolion hefyd eu bod yn cynllunio gweithgaredd sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr MAT gael dysgu'n annibynnol. Gan nad oedd safonau na chanlyniadau, nac ansawdd/effeithiolrwydd darpariaeth MAT yn yr ysgolion o fewn sgôp yr arolwg, nid oes dystiolaeth ar gael i nodi os ydy'r strategaethau hyn wedi cael dylanwad positif ar safonau cyflawniad y dysgwyr. Fodd bynnag, nodwyd mater tangyflawniad dysgwyr cynradd gan Estyn yn ystod gwaith maes eu Prif Arolwg.

<sup>27</sup> Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd; Estyn Mehefin 2011

<sup>28</sup> Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd Estyn Mehefin 2012

*'Nid yw dysgwyr mwy abl a thalentog yng Nghymru yn cyflawni gystal ag y dylent wneud. Nid oes digon o ddysgwyr ysgolion cynradd yn cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol yn 11 oed'.<sup>29</sup>*

## **A2 gwella'r defnydd o ddata ac asesiadau i nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus.**

Awgryma tystiolaeth bod ysgolion cynradd yn fwy 'data gyfoethog' nag y buon nhw. Yn gyffredinol, ymddengys eu bod wedi gwella eu hasesiadau ffurfiannol a chrynodol i ganfod dysgwyr MAT. Mae'r mwyafrif o ysgolion cynradd yn defnyddio systemau electronig, naill ai wedi eu datblygu'n fewnol neu'n systemau masnachol, i dracio cynnydd academaidd dysgwyr MAT yn erbyn targedau personol a disgwyliadau cenedlaethol.

## **A3 adeiladu ar drefniadau trosglwyddo presennol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gynnig her fwy priodol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.**

Mae trefniadau pontio rhwng ysgol gynradd ac uwchradd i ddysgwyr MAT yn agwedd bellach o welliannau. Dywed y mwyafrif o ysgolion cynradd fod gwybodaeth MAT yn cael ei defnyddio i sicrhau trefniadau pontio effeithiol ar gyfer dysgwyr MAT, ac y mae safoni clwstwr gwaith dysgwyr MAT Cyfnod Allweddol 2 yn rhoi ffocws ar gyfer y pontio. Fodd bynnag, awgryma tystiolaeth mai cymharol ychydig o ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gweithio'n agos ar raddfa gyson i ddarparu 'her fwy priodol' ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog.

## **A4 gwella dealltwriaeth rhieni o sut y gallant gefnogi addysg eu plentyn yn well.**

Mae'r mwyafrif o ysgolion cynradd yn defnyddio'r broses riportio a chyfarfodydd rhieni-athrawon i rannu gwybodaeth ynglŷn â MAT i'r rhieni. Fodd bynnag, dengys tystiolaeth arolwg fod angen i lawer o ysgolion cynradd fod yn fwy rhagweithiol wrth roi gwybod i rieni am eu polisi ac arferion MAT, ac i weithredu'n fwy positif i wella dealltwriaeth rhieni am y modd y gallan nhw gefnogi dysg eu plentyn.

## **A5 defnyddio cymunedau dysgu proffesiynol i rannu arfer orau yn addysg disgyblion mwy abl a dawnus.**

Er i ychydig o esiamplau gael eu rhoi yn ystod yr arolwg o waith MAT effeithiol yn gweithio mewn clwstwr ysgolion, mae hon yn agwedd i'w datblygu ymhellach gan mai dim ond lleiafrif o ysgolion cynradd ddywedodd eu bod y rhannu arferion am addysgu dysgwyr MAT drwy gymunedau dysgu proffesiynol.

## **A6 darparu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr ysgol, athrawon a staff cymorth ar sut i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus.**

Dywedodd llawer o'r ysgolion cynradd fu'n rhan o'r arolwg eu bod wedi darparu hyfforddiant ynglŷn â MAT i staff yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Ymhlith yr

---

<sup>29</sup> Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2013-2014

enghreifftiau a roddwyd roedd archwilio dulliau effeithiol o wahaniaethu, cynllunio gweithgareddau ymestyn a datblygu technegau cwestiynau uwch eu lefel. Ymhlith esiamplau eraill o ddysgu proffesiynol roedd mynychu cynadleddau NACE Cymru a hyfforddiant ynglŷn â MAT wedi'i ddarparu gan sefydliadau masnachol. Er bod tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu bod llawer o ysgolion wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, dynododd arweinwyr ysgolion cynradd fod angen parhaus am ragor o gyfleoedd dysgu proffesiynol ynglŷn â MAT.

### **Argymhellion uwchradd:**

#### **A1 adeiladu ar y trefniadau pontio presennol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i ddarparu parhad a dilyniant gwell yn addysg disgyblion mwy abl a dawnus.**

Adroddodd tua hanner yr ysgolion uwchradd y caiff gwybodaeth MAT eu defnyddio i sicrhau trefniadau pontio effeithiol ar gyfer dysgwyr MAT. Dengys tystiolaeth yr arolwg y gall anghysonderau mewn asesiadau athrawon gyfrannu at ddiffyg hyder mewn data pontio MAT, gan awgrymu nad yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson i sicrhau dilyniant a chynnydd wrth addysgu dysgwyr MAT. Mae'r trefniadau pontio o leoliad ysgolion uwchradd i Sefydliadau Addysg Bellach hefyd yn faes ar gyfer gwelliannau pellach.

#### **A2 gwella'r defnydd o ddata ac asesu i nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus a rhannu'r wybodaeth hon gyda'r holl staff a'r rhieni perthnasol.**

Adroddodd ysgolion uwchradd eu bod wedi gwella eu defnydd a'u dadansoddiad o ddata i dracio perfformiad dysgwyr ac wedi datblygu systemau tracio ysgol gyfan i fonitro cynnydd dysgwyr MAT. Mae'r pwyslais pennaf ar berfformiad academiaidd a llai ar ddatblygu talent. Ymddengys bod casglu a dadansoddi data asesu ffurfiannol, yn bennaf yn y pynciau craidd, ynghyd â chanlyniadau profion cenedlaethol, a thracio cynnydd dysgwyr, yn faes ymarfer sydd wedi gwella. Mae cwestiwn o hyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y defnydd dilynol o ddata i gefnogi a herio dysgwyr MAT unigol i gyrraedd eu potensial. Yn ôl Adroddiad Estyn<sup>30</sup>: *'Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd da o ddata i ddadansoddi perfformiad cyffredinol disgyblion ..... Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n gwneud defnydd effeithiol o ddata i olrhain cynnydd grwpiau gwahanol o ddisgyblion'*.

#### **A3 darparu cyfleoedd cyfoethog a darpariaeth sy'n cynnig her briodol ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion mwy abl a dawnus gyflawni'r safonau uchaf.**

Mewn ysgolion uwchradd lle mae'r arweinwyr wedi gosod MAT yn flaenoriaeth, mae strwythurau ysgol gyfan yn tueddu i fod wedi mewnbllannu'n dda. Adroddodd bron y cyfan o'r ysgolion bod tasgau mwy heriol ar y gweill ar gyfer dysgwyr MAT o fewn cyd-destun gwella ansawdd addysgu a dysgu bob dydd i'r holl ddysgwyr. Dywedodd mwyafrif yr ysgolion eu bod yn darparu cyfleoedd dysgu annibynnol i ddysgwyr MAT. Nodir bod dulliau amrywiol o addysgu yn nodwedd arferion dosbarth i ymestyn dysgwyr MAT mewn llawer ysgol. Gan nad oedd safonau a chanlyniadau ac

---

<sup>30</sup> Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2013-2014

ansawdd/effeithiolrwydd darpariaeth MAT mewn ysgolion o fewn sgôp yr arolwg, nid oes tystiolaeth ar gael i ddangos a ydy'r strategaethau hyn wedi cael dylanwad positif ar safonau cyflawniad dysgwyr. Fodd bynnag, mae tangyflawniad dysgwyr MAT mewn ysgolion uwchradd yn cael ei ddynodi fel achos pryder gan Estyn. Adroddir hefyd bod rhy ychydig o ddysgwyr ysgol uwchradd yn cyflawni'n uwch na'r lefel disgwylidig am eu hoedran mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol yn 14 oed yn y pynciau craidd. Yn yr un modd, mae rhy ychydig o rai 16 oed yn cael graddau A/A\* yn y pynciau craidd.

*'Hyd yn oed mewn ysgolion da, mae grwpiau o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf abl, nad ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent fod yn gwneud.'*<sup>31</sup>

#### **A4 sicrhau bod disgyblion mwy abl a dawnus o gefndiroedd difreintiedig yn cael cymorth penodol i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.**

Adroddir bod y Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dysgwyr MAT sy'n derbyn cinio am ddim mewn tua hanner yr ysgolion. Dywedir bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys prynu adnoddau, cyflogi Cynorthwyr Cefnogi Dysgu, trefnu Dyddiau Dysgu MAT, ac i ddarparu profiadau cyfoethogi fydd yn codi'r nod i ymgyrraedd ato. Caiff dysgwyr MAT o gefndir difreintiedig gefnogaeth i wneud cais a mynychu ysgolion haf mewn prifysgolion lleol yn cynnwys rhai wedi eu hariannu gan y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach.

#### **A5 darparu mentora ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus i'w helpu i wneud y dewisiadau gorau o ran gweithgareddau allgyrsiol, opsiynau a gyrfa.**

Dywed tua dwy ran o dair o'r ysgolion uwchradd eu bod yn darparu cymorth bugeiliol, yn bennaf mewn grwpiau bach neu fentora unigol drwy'r Cydlynnydd MAT, cymorth Hyfforddwr Dysgu i ddysgwyr MAT 14 - 19, ynghyd â chefnogaeth wedi'i dargedu i rai'n gwneud cais i brifysgolion blaenllaw. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod darpariaeth cyngor o ansawdd am opsiynau pwnc a dewisiadau gyrfaol penodol ar gyfer dysgwyr MAT yn faes i'w ddatblygu ymhellach mewn llawer o ysgolion.

#### **A6 hyfforddi arweinwyr ysgol, athrawon a staff cymorth ar sut i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus a defnyddio rhwydweithiau o arfer proffesiynol i rannu arfer orau.**

Dywedodd llawer o ysgolion uwchradd fod eu staff wedi derbyn hyfforddiant ynglŷn â MAT yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Ymhlith yr enghreifftiau mae hyfforddiant ysgol gyfan, grwpiau gwaith MAT a mynychu cynadleddau NACE Cymru. Fodd bynnag, mae defnyddio rhwydweithiau ymarfer proffesiynol i rannu arfer gorau yn faes i'w ddatblygu ymhellach wrth i arweinwyr ysgolion ddynodi'r angen am ragor o gyfleoedd i rannu ac arsylwi ymarfer ar lefel clwstwr, ALI a rhanbarth.

---

<sup>31</sup> Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2013-2014

## **A7 gwella dealltwriaeth rhieni o'r modd y gallant gefnogi addysg eu plentyn mwy abl neu ddawnus yn well.**

Dyma faes arall i'w ddatblygu gan fod tystiolaeth yn dangos bod angen i ysgolion uwchradd wneud rhagor i hysbysu rhieni dysgwyr mwy galluog a thalentog sut y gallan nhw gefnogi dysg eu plentyn mwy galluog a thalentog. Er i'r ysgolion ddefnyddio adroddiadau cynnydd ysgrifenedig a chyfarfodydd rhieni-athrawon i rannu'r wybodaeth am y cynnydd academaidd, dim ond lleiafrif o'r ysgolion ddywedodd eu bod yn hysbysu rhieni am eu polisi ac arferion MAT drwy gyfrwng prospectws ysgol, gwefan yr ysgol neu ddeunyddiau ysgrifenedig eraill.

### **Argymhellion i'r Awdurdodau Lleol:**

Ers cyhoeddi adroddiadau Estyn, mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol wedi newid yn sylweddol, gyda thuedd i droi at fodel rhanbarthol o wella ysgolion gan arwain, mewn llawer achos, i leihad yng ngallu'r Awdurdodau Lleol. Oherwydd hyn, mae yna le i ddadlau pa mor drylwyr y mae awdurdodau lleol wedi ymateb i argymhellion Estyn a'u gweithredu.

## **A1 hyfforddi swyddogion gwella ysgolion ar sut i nodi, cefnogi, olrhain, monitro ac arfarnu cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus.**

Tra bod llawer o Awdurdodau Lleol yn dweud bod swyddogion wedi cael eu hyfforddi sut i ddadansoddi data cyflawniad a thracio perfformiad disgyblion, mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu nad ydy'r mwyafrif o Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol wedi darparu hyfforddiant penodol i swyddogion ar sut i ganfod, cefnogi, tracio, monitro na gwerthuso cynnydd y dysgwyr mwy galluog a thalentog.

## **A2 defnyddio data yn fwy effeithiol i arfarnu tueddiadau dros gyfnod yng nghyflawniad disgyblion mwy abl a dawnus.**

Dywed y mwyafrif yr Awdurdodau Lleol eu bod wedi buddsoddi'n sylweddol i ddatblygu prosesau a systemau i dracio a monitro perfformiad disgyblion, a dywedir bod data perfformiad disgyblion ynglŷn â MAT yn cael ei gasglu gan y mwyafrif o Awdurdodau Lleol. Dywed ychydig o Awdurdodau Lleol bod eu systemau tracio data yn caniatáu tracio cynnydd ar lefel unigol y dysgwr. Awgryma tystiolaeth nad ydy'r defnydd o'r data wedi hynny, i werthuso tueddiadau dros gyfnod yng nghyflawniad dysgwyr mwy galluog a thalentog, wedi ei ddatblygu'n ddigonol gan y mwyafrif o Awdurdodau Lleol.

## Atodiad C: E-arolwg ysgolion

1. Enw'ch ysgol: .....
2. Enw'r Awdurdod Lleol: .....
3. Dewiswch y disgrifiad gorau o'ch lleoliad o'r rhestr isod:
  - Meithrinfa a gynhelir
  - Ysgol Fabanod
  - Ysgol Iau
  - Ysgol Gynradd
  - Ysgol Uwchradd 11-16
  - Ysgol Uwchradd 11-18
  - Arall, rhowch fanylion .....
4. Dewiswch y disgrifiad gorau o'ch lleoliad o'r rhestr isod:
  - Cyfrwng Saesneg
  - Cyfrwng Cymraeg
  - Dwyieithog
5. Dewiswch y disgrifiad(au) gorau o'ch swyddogaeth chi o'r rhestr isod.
  - Pennaeth
  - Uwch arweinydd
  - Cydlynnydd AAA (SENCO) / Cydlynnydd ADY (ALNCO)
  - Cydlynnydd MAT
  - Ymarferydd yn y dosbarth
  - Arall, rhowch fanylion .....

### Strategaeth MAT yr ysgol gyfan

6. Sut mae'ch ysgol yn dehongli'r term '*Mwy Abl a Thalentog*'?
7. Ydy'r ddarpariaeth ar gyfer MAT yn cael ei chynnwys yn eich Cynllun Ddatblygu Ysgol cyfredol?
  - Ydy
  - Nac ydy
  - Ddim yn gwybod

Os atebwyd 'Ydy', rhowch fanylion byr am flaenoriaethau materion MAT a'r canlyniadau a ddisgwylir.
8. Oes gan eich ysgol bolisi MAT sydd wedi ei ddiweddarau?
  - Oes
  - Nac oes
  - Ddim yn gwybod
9. Oes gan eich ysgol Gydlynnydd MAT?
  - Oes
  - Nac oes
  - Ddim yn gwybod



10. Oes gan eich ysgol Gynllun Gweithredu MAT?
- Oes
  - Nac oes
  - Ddim yn gwybod
11. Ydych chi'n ymwybodol o ddogfen ganllaw Llywodraeth Cymru - "Cyflawni'r Her - Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog (Medi 2008)?
- Ydw
  - Nac ydw

Os atebwyd 'Ydw', sut mae'r canllaw wedi dylanwadu ar y ddarpariaeth MAT yn eich ysgol?

12. Ydy staff yn eich ysgol wedi derbyn hyfforddiant materion MAT yn ystod y 3 blynedd diwethaf?
- Ydy
  - Nac ydy
  - Ddim yn gwybod

Os atebwyd 'Ydy', rhowch enghraifft.

13. Fe hoffem asesu lefelau hyder staff yn eich ysgol i ganfod, cefnogi a herio dysgwyr MAT. Dewiswch un ateb ym mhob achos.

a. 'Mae staff yn ein hysgol yn hyderus yn eu gallu i **ganfod** dysgwyr MAT.'

Cytuno'n gryf	= 1
Cytuno	= 2
Ddim yn cytuno nac anghytuno	= 3
Anghytuno	= 4
Anghytuno'n gryf	= 5

b. 'Mae staff yn ein hysgol yn hyderus yn eu gallu i **gefnogi** dysgwyr MAT.'

Cytuno'n gryf	= 1
Cytuno	= 2
Ddim yn cytuno nac anghytuno	= 3
Anghytuno	= 4
Anghytuno'n gryf	= 5

c. 'Mae staff yn ein hysgol yn hyderus yn eu gallu i **herio** dysgwyr MAT.'

Cytuno'n gryf	= 1
Cytuno	= 2
Ddim yn cytuno nac anghytuno	= 3
Anghytuno	= 4
Anghytuno'n gryf	= 5

### Canfod dysgwyr MAT

14. Oes gennych chi strategaeth gyson ysgol gyfan ar gyfer canfod dysgwyr MAT?
- Oes
  - Nac oes
  - Ddim yn gwybod

15. Pa strategaethau canfod ydych chi'n eu defnyddio i sicrhau bod pob gallu a thalent yn cael eu hadnabod? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.

- Asesiadau ffurfiannol gan athrawon
- Data asesu crynodol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol
- Canlyniadau profion cenedlaethol ar ddarllen a rhifedd
- Safoni gwaith disgyblion
- Sgoriau profion masnachol\*
- Meini prawf pwnc-benodol
- Enwebiad gan athro
- Hunan enwebiad
- Enwebiad gan gyfoedion
- Enwebiad gan riant
- Enwebiad gan bobl broffesiynol eraill e.e. athrawon cerdd teithiol
- Arall, rhowch fanylion .....

\* Os ydych yn defnyddio sgoriau profion masnachol, nodwch pa rai:

16. I ba ddiben(ion) mae'r wybodaeth am broffilio MAT yn cael ei defnyddio? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.

- Canfod cryfderau a diddordebau disgyblion unigol
- Canfod anghenion disgyblion unigol
- Monitro cynnydd disgyblion unigol
- Rhoi gwybod i'r disgyblion am eu cyflawniadau
- Rhoi gwybod i'r disgyblion am y camau nesaf yn eu dysg
- Rhoi gwybod i gydweithwyr am gyflawniadau'r disgyblion a'r camau nesaf yn eu dysg
- Canfod tangyflawni
- Cynllunio gweithgareddau cyfoethogi addas
- Sicrhau trefniadau pontio effeithiol ar gyfer disgyblion MAT
- Arall, rhowch fanylion .....

17. Sut mae'r wybodaeth am ddisgyblion MAT yn cael eu cofnodi? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.

- ar bapur e.e. nodiadau ac arsylwadau athrawon
- ar bapur gan ddefnyddio ffurflen gofnodi wedi ei safoni
- ar system gyfrifiadurol e.e. proffil electronig
- Arall, rhowch fanylion .....

18. Ydy eich ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i greu cofrestr MAT?

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

19. Â phwy fyddwch chi'n rhannu gwybodaeth MAT? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.

- Disgyblion MAT unigol
- Ymarferwyr eraill yn yr ysgol
- Rhieni/gofalwyr
- Ysgolion eraill a/neu golegau AB adeg pontio
- Yr Awdurdod Lleol

- Y Consortiwm Rhanbarthol
- Arall, rhowch fanylion .....

### **Cymorth a chefnogaeth i ddysgwyr mwy galluog a thalentog**

O'r man canfod,

20. Pa gefnogaeth cwricwlwm ydych chi'n ei ddarparu ar gyfer dysgwyr MAT? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.
- Tasgau mwy heriol
  - Profiadau dysgu gwahaniaethol
  - Cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol
  - Dulliau amrywiol o addysgu
  - Arall, rhowch fanylion .....
21. Pa gefnogaeth heb fod ar y cwricwlwm ydych chi'n ei ddarparu ar gyfer dysgwyr MAT? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.
- Bugeiliol e.e. mentora
  - Gweithgaredd allgwricwlar yn yr ysgol
  - Drwy sianelau ar-lein/cyfryngau cymdeithasol
  - Cyfleoedd cyfoethogi yn y gymuned
  - Arall, rhowch fanylion .....
22. Oes gan eich ysgol rwydwaith cefnogaeth cyfoedion ar gyfer dysgwyr MAT mewn grwpiau o wahanol oedran?
- Oes
  - Nac oes
  - Ddim yn gwybod

Os atebwyd 'Oes', rhowch ddisgrifiad.

23. Ydy disgyblion MAT sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim (e-FSM) yn derbyn cefnogaeth benodol i oresgyn rhwystrau i'w dysg?
- Ydy
  - Nac ydy
  - Ddim yn gwybod

Os atebwyd 'Ydy', rhowch enghraifft.

### **Herio dysgwyr mwy galluog a thalentog**

24. Ydy eich ysgol yn darparu rhaglenni penodol i herio dysgwyr galluog eithriadol?
- Ydy
  - Nac ydy
  - Ddim yn gwybod
- Os atebwyd 'Ydy', nodwch ystod yr oed targed a'r ffocws cwricwlwm.
25. Ydy eich ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i herio dysgwyr MAT?
- Ydy
  - Nac ydy
  - Ddim yn gwybod

Os atebwyd 'Ydy', rhowch enghreifftiau o'r sefydliadau rydych chi'n cydweithio â nhw, os gwelwch yn dda.

26. Sut bydd cynnydd dysgwyr MAT yn cael ei dracio a'i fonitro? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.
- Trafodaeth gyda'r disgyblion
  - Dadansoddiad rheolaidd o ddata cyflawni
  - Arolygon rhwng athrawon dosbarth a'r Cydlynnydd MAT
  - Perfformiadau disgyblion mewn profion Cenedlaethol
  - Arsylwi gwersi
  - Archwilio llyfrau
  - Dadansoddi data ar ddiwedd cyfnod allweddol
  - Arall, rhowch fanylion .....

### **Rhannu gwybodaeth MAT**

27. Ydy eich ysgol yn rhannu gwybodaeth materion MAT yn ystod cyfnodau pontio allweddol?
- Ydy
  - Nac ydy
  - Ddim yn gwybod
28. Ydy eich ysgol yn rhannu gwybodaeth materion MAT gyda'r rhieni/gofalwyr?
- Ydy
  - Nac ydy
  - Ddim yn gwybod

Os atebwyd 'Ydy', sut mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth materion MAT gyda'r rhieni/gofalwyr? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.

- Rhannu'r cynnydd a'r targedau mewn adroddiadau cynnydd ysgrifenedig
- Cyfarfodydd cynnydd rheolaidd a chyfarfodydd rhieni
- Dyddiau agored lle gall rhieni edrych ar waith y disgybl
- Drwy wefan yr ysgol
- Darparu canllawiau ysgrifenedig e.e. taflen ar sut i gefnogi eu plentyn MAT
- Gofyn drwy holiadur am enwebiadau gan y rhieni am dalentau eu plant
- Rhannu gwybodaeth prosiect dosbarth a thasgau gwaith cartref
- Cyfarfodydd pontio Blwyddyn 6
- Prosbectws yr ysgol
- Llythyron cymeradwyo
- Drwy lythyr e.e. gofyn am ganiatâd i ddisgyblion MAT fynychu gweithgareddau cyfoethogi
- Arall, rhowch fanylion .....

### **Gweithio mewn Partneriaeth**

29. Ydy eich ysgol yn derbyn cefnogaeth effeithiol i ddatblygu darpariaeth MAT? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.
- Ydy, gan yr Awdurdod Lleol
  - Ydy, gan y Consortiwm Rhanbarthol
  - Ydy, gan eraill, rhowch fanylion.....
  - Nac ydy

30. Ydy'r ddarpariaeth MAT yn cael ei monitro yn eich ysgol? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.
- Ydy, gan gorff llywodraethol yr ysgol
  - Ydy, gan swyddogion o'r ALI
  - Ydy, gan gynghorwyr herio'r Consortia Rhanbarthol
  - Ydy, gan eraill, rhowch fanylion .....
  - Nac ydy
31. Oes data asesu, i ganfod, tracio a monitro cynnydd dysgwyr MAT, yn cael ei ddarparu ar gyfer eich ysgol? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.
- Oes, gan swyddogion o'r ALI
  - Oes, gan gynghorwyr herio'r Consortia Rhanbarthol
  - Oes, gan eraill, rhowch fanylion .....
  - Nac oes
32. Oes cyfle'n cael ei ddarparu ar gyfer hyfforddiant materion MAT ac i rannu arferion gorau? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.
- Oes, gan yr ALI
  - Oes, gan y Consortiwm Rhanbarthol
  - Oes, gan eraill, rhowch fanylion.....
  - Nac oes
33. Sut mae'r ddarpariaeth, cefnogaeth a heriau MAT yn cael eu cyllido yn eich ysgol? Dewiswch unrhyw atebion sy'n berthnasol.
- Cyllideb graidd yr ysgol
  - Y Grant Amddifadedd Disgyblion
  - Y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion
  - Ariannu gan Y Gymdeithas Rhieni Athrawon
  - Arall, rhowch fanylion .....
34. O'ch safbwynt chi, beth ydy'r gwendidau yn y ddarpariaeth a'r wybodaeth ar gyfer dysgwyr MAT?
35. Beth yn rhagor ddylid ei wneud i sicrhau canfod a meithrin dysgwyr MAT?
36. Fyddech chi'n fodlon i'ch ysgol fod yn rhan o astudiaeth achos arferion effeithiol ar gyfer darpariaeth MAT?
- Byddwn
  - Na fyddwn
37. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?

Diolch am lanw'r e-arolwg hwn.

## **Atodiad D: Prif gyfarwyddyd cyfweld yr Arolwg ar gyfer ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion**

1. Sut mae'ch lleoliad chi'n dehongli'r term 'Mwy Galluog a Thalentog'?
2. Sut caiff y ddarpariaeth MAT ei threfnu o fewn eich lleoliad chi?
3. Ydy'r ddarpariaeth MAT yn ymddangos yn eich Cynllun Datblygu cyfredol?
4. Ydych chi'n ymwybodol o ganllaw Llywodraeth Cymru 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog'?
5. Sut mae'r canllaw a'r Safonau Ansawdd wedi dylanwadu ar eich gwaith?
6. Sut ydych chi fel ysgol yn sicrhau bod anghenion dysgwyr MAT yn cael eu canfod?
7. Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr MAT (o'r pwynt lle maen nhw wedi eu canfod i ddechrau)?
8. Ydy eich lleoliad yn darparu rhaglenni penodol i gefnogi a herio dysgwyr MAT?
9. Rhowch enghreifftiau os gwelwch yn dda. (Ystod oedran targed, ffocws cwricwlwm, darpariadd, ayb)
10. Ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gefnogi a herio dysgwyr MAT? Rhowch enghreifftiau os gwelwch yn dda.
11. Sut mae cynnydd dysgwyr MAT yn cael eu tracio a'u monitro?
12. Sut ydych chi'n monitro effaith y gefnogaeth a'r heriau MAT?
13. Pa mor effeithiol ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion/ colegau eraill i gefnogi dysgwyr MAT yn ystod cyfnod pontio?
14. Sut mae gwybodaeth ynglŷn â MAT (canfod, cynnydd, ayb) yn cael ei rhannu â'r rhieni/gofalwyr?
15. Sut mae cefnogaeth MAT yn cael ei chyllido yn eich lleoliad?
16. Pa gefnogaeth ydych chi wedi cael gan eich ALL i ddatblygu darpariaeth MAT effeithiol?
17. Pa gefnogaeth ydych chi wedi cael gan eich Consortiwm Rhanbarthol i ddatblygu darpariaeth MAT effeithiol?
18. O'ch safbwynt chi, oes yna unrhyw wendidau neu fylchau yn y ddarpariaeth a'r wybodaeth ar gyfer dysgwyr MAT?
19. Yn olaf, yn eich barn chi, oes yna unrhyw beth yn rhagor y gellid/dylid ei wneud i sicrhau canfod a meithrin dysgwyr MAT?

## Atodiad E: Llyfryddiaeth

ACCAC (2003). *'Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad.'*  
Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2008). *Darpariaeth effeithiol ar gyfer plant galluog a thalentog mewn ysgolion cynradd.*

Estyn (2011). *'Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd.'*

Estyn (Mehefin 2012). *'Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd.'*

Estyn (Medi 2013). *'Canllaw atodol: dysgwyr mwy galluog a thalentog.'*

Estyn (Ionawr 2015). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2013-2014*

'Learning and Teaching Scotland' (2008). *'Guidance for addressing the needs of highly able pupils.'*

Murphy, P. (Mehefin 2014). *'Adroddiad terfynol Llysgennad Oxbridge yng Nghymru.'*

NACE Cymru (Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (Awst 2013). *'The more able and talented training pack.'*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2006). Cylchlythyr Rhif: 47/2006; *'Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion.'*

National Council for Curriculum and Assessment (2007). *'Gifted and Talented Pupils; guidelines for teachers.'*

Ofsted – Swyddfa Safonau mewn Addysg (Mehefin 2013). *'The Most Able Students; Are they doing as well as they should in our non-selective secondary schools?'*

Ofsted (Mawrth 2015). *'The Most Able Students; An update on progress since June 2013.'*

Smith, D. (Medi 2013). *'Adroddiad annibynnol ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru.'*

Smithers, A & Robinson, P. Centre for Education and Employment Research, Prifysgol Buckingham (Gorffennaf 2012); *'Educating the Highly Able.'*

Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mawrth 2010). *'Cwricwlwm i bob dysgwr – Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.'*

Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mai 2008). Cylchlythyr Rhif: 006/2008 *'Cyflawni'r Her: Safonau ansawdd mewn addysg ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog.'*

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009). *'Safonau Statws Athro Cymwysedig Cymru.'*

Llywodraeth Cymru (Chwefror 2014). *'Dogfen ganllaw rhif: 126/2014 'Y model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol yng Nghymru.'*

Llywodraeth Cymru (Mehfin 2014). *'Ailysgrifennu'r dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru.'*